# ECO'R WYDDFA


**RHIF 329**
**DOLIG/IONAWR 2006**

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon*

*Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn.*


**SWYDDOGION A GOHEBWYR**


**Tîm Golygyddol**
d/o PALAS PRINT
7B STRYD PLAS
CAERNARFON
Ffôn/Ffacs (01286) 674631
eco@palasprint.com

Eirian James (01286) 674631
Bryn Jones (01286) 674405
Llinos Jones (01286) 871820
Sion Williams (01286) 871858
Alun Ellis (01286) 650761

**CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH**
Arwel Jones

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

**FFOTOGRAFFWR**
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd Glanffynnon, Llanrug (675605)
e-bost: johnroberts@prjr.wales.com

**TREFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD PLYGU**
Shioned Griffith (650570)

**GOHEBWYR PENTREFI**

**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran (01248) 670726
**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
**CAEATHRO:** Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
**DEINIOLEN:** Mrs Margaret Cynfi Griffith, (870394)
**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion Roberts, Swn-y-Gwynt (870740)
**LLANRUG:** Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
**NANT PERIS:** Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon (871820)
**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
**TAN-Y-COED:** Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)


Cefnogwch ein Hysbysebwyr

**Y RHIFYN NESAF**
**Deunydd i law'r golygyddion perthnasol**
**NOS LUN, 16 IONAWR**
**Os gwelwch yn dda**
**Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg**
**NOS IAU, 26 IONAWR**

# Llythyr

Annwyl Olygydd,

Fel y gŵyr eich darllenwyr eisoes, mae yng Ngwynedd ymhlith y mwyaf o ysgolion bychain yng Nghymru. Mae'r nifer o ddisgyblion ysgolion cynradd wedi disgyn yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac rydym yn rhagweld y bydd gostyngiad pellach yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Bydd y cwymp yma yn golygu y bydd Gwynedd yn derbyn llai o arian gan Lywodraeth y Cynulliad er mwyn cynnal ysgolion y Sir. Daw hyn tra bydd y pwysau gwaith ar ein Prifathrawon, yn enwedig rheini sy'n cyfuno cyfrifoldebau fel athro dosbarth ynghyd â chyfrifoldebau rheoli'r ysgol, yn parhau i gynyddu. Cofier fod cytundeb athrawon cenedlaethol yn cyfeirio at yr angen am 10% o amser digyswllt ar gyfer athrawon.

Nid yw'r sefyllfa bresennol yn gynaliadwy. Mae rhai newidiadau yn anorfod os ydym am barhau i gyrraedd y safonau uchel sydd eisoes yn bodoli yn ysgolion Gwynedd. Yn dilyn adroddiad gan Weithgor o Gynghorwyr, Prifathrawon a Swyddogion Addysg, penderfynodd Bwrdd y Cyngor i drefnu ymgynghoriad cynhwysol gydag athrawon, llywodraethwyr a rhieni drwy'r Sir.

Trefnwyd nifer o gyfarfodydd talgylchol ar draws Gwynedd, ac rydym yn falch o adrodd fod y cyfarfodydd wedi bod yn llwyddiannus iawn. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y broses hyd yma.

Fel rhan o'r broses ymgynghori, cynhyrchwyd taflen 'Ymgynghoriad ar Drefniadaeth Ysgolion', sy'n egluro'r sefyllfa bresennol, a'r ffordd yr ydym fel Cyngor yn bwriadu ymateb i ddisgwyliadau Llywodraeth y Cynulliad a'r Comisiwn Archwilio i'w ddosbarthu drwy law'r ysgolion. Deallwn, am resymau gweinyddol, nad yw holl rieni dalgylch Brynrefail wedi derbyn copi o'r daflen yma. Oherwydd hyn mae'r Cyngor wedi ymestyn y cyfnod i'r rhieni yma ymateb i adroddiad y gweithgor o 2 Rhagfyr i 14 Rhagfyr.

Mae'r adroddiad llawn ar gael yn eich llyfrgell leol, neu gallwch ffonio'r Cyngor ar (01286) 672255 neu lawr-lwytho'r adroddiad oddi ar wefan Cyngor Gwynedd: www.gwynedd.gov.uk

Anogwn unrhyw un sy'n awyddus i gyflwyno sylwadau am drefniadaeth ysgolion Gwynedd i wneud hynny drwy lenwi'r ffurflen sydd wedi ei pharatoi gyda'r adroddiad. Bydd pob sylw a gyflwynir cyn y dyddiad cau diwygiedig yn cael ystyriaeth lawn.

Croesawir sylwadau ar yr egwyddorion, mae eich barn chi yn bwysig.

Yn gywir
Y Cynghorydd Dai Rees Jones
Cadeirydd Gweithgor
Trefniadaeth Ysgolion
Gwynedd

## DIOLCH

Dymuna Nona, Manon a Meilyr ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolchir hefyd am y rhoddion hael a dderbyniwyd er cof am Stephen, a gyflwynir i Ward Alaw.

## RHODDION

**£15:** Mr a Mrs Andrew Griffith, Tan y Bwlch, Dinorwig.
**£10:** Glyn Williams, 18 Maes Padarn, Llanberis
**£5:** Iorwerth a Peri, Hafod Olau, Deiniolen; Heather Williams, Glasinfryn.
**£3:** Clwb Bro Bethel


## Tŷ Gwledig Meifod
### Bontnewydd

*'Dewch yn gynnar i elwa o gynnig arbennig'*
Cinio o 4.00 y.h. – tan 6.00 y.h.
Dydd Llun i ddydd Gwener
1 Cwrs – £6.95 • 2 Gwrs – £8.95 • 3 Chwrs – £10.95
Prydau bar ar gael hefyd
wedi gweini o 12.00 y.p. tan 9.00 y.h.
*(Bwydlen newydd wedi ei chyflwyno)*

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr Eco'r Wyddfa*

*Cysylltwch â ni am fanylion pellach ar* 01286 673351

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn*

**SWIGOD A SEBON**

Sychlanhau • Altro
Ailwnïo
Gwasanaeth
Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: **870088** **GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO**

**am help:**
- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda*

MANTELL GWYNEDD
*Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol*
*Supporting voluntary and community groups*

**cysylltwch â Mantell Gwynedd**
– yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com
**01286 672626 neu 01341 422575**

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth*

**CONTRACTWYR TRYDANOL ELIDIR**

Bob math o waith trydanol i'r **Cartref**, ac i **Sefydliadau Masnachol** a **Diwydiannol**

Tel: **(01286) 879064** • Symudol: **07810736482**

Amcangyfrif am ddim • Ar gael 24 awr y dydd
**Shaun Jones, Terannedd, Rhes Cynfi, Deiniolen LL55 3LG**

**BWS BACH AR LOG**



**Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat — nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan**

**D. P. OWENS**
RHIWLAS
**01248–361044**

**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA**
**LLOGWCH FWS I'W DDATHLU'N DDIOGEL**

## DEINIOLEN

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi. Ffôn: (870394)

Y *GREAT NORTH RUN.* Yn dilyn cwblhau'r Great North Run ar Medi 18, hoffai Wendy James ac Yvonne Regan ddiolch i bawb am y cefnogaeth arianol a gawsant, sydd wedi dod i gyfanswm o £1,647. Bydd y pres yn mynd tuag at Ymchwil y Galon.

DYMUNA Iorwerth a Peri, 5 Hafod Oleu, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w teulu, ffrindiau a chymdogion ym mro *Eco'r Wyddfa.*

DYMUNWN Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr yr *Eco* yn yr ardal a diolch am eich cefnogaeth dros y flwyddyn.

HOFFAI Heather Williams, Glasinfryn, ddiolch o galon i deulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau, arian, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty yn dilyn ei damwain yn ddiweddar.

**Daisy Williams**
**Tŷ Capel Ysgoldy, neu Weirglodd Las**
31.3.1911–26.11.2005

Merch John Ellis Williams, Macpelah House, ac Ellen (Sal) Parry, Weirglodd Las, Penisarwaun; chwaer i'r diweddar William John Williams a chwaer yng nghyfraith i Jennie, Caecorniog.

Mynychodd Ysgol Tan y Coed, a byddai wrth ei bodd yn dweud mai'r un ysgol ag Archesgob Cymru ydoedd, ac wedyn ei hanes yn treulio gwyliau'r haf yn fferm Tan y Coed, Abererch, Pwllheli gyda'i modryb, Nell, chwaer ei mam, a oedd yn athrawes yn Llannor.

Wedi gadael yr ysgol bu'n gweithio am ychydig yn siopau Dent a'r Nelson yng Nghaernarfon, er na fu hyn erioed yn help iddo pan oedd angen prynu dillad newydd! Byddai'n cyrraedd adref yn 'difaru' prynu'r dilledyn, rhan amlaf.

Priododd Owen Williams, Tan-y-weirglodd, Clwt-y-Bont, yn 1937, mab Thomas ac Elizabeth Williams, a byw gyda'r *in-laws* cyn symud i Ysgoldy Cottage, neu Tŷ Capel Ysgoldy, fel yr adnabyddir ef yn lleol, ar ddiwrnod cyntaf yr Ail Ryfel Byd, yn 1939. Wedyn magu dau o blant, sef Wena a Gwilym.

Bu'r ddau yn ffyddlon yn y capel ar hyd eu hoes, lle bu Owen (neu Yncl Now) yn flaenor ac yn godwr canu, fel ei dad gynt. Dwi ddim yn meddwl fod Anti Desi yn gantores chwaith! Bu'n glanhau'r capel am dros 50 mlynedd a gwneud cinio, neu de Sul, i amryw o weinidogion dros y blynyddoedd, hyd nes i'r arferiad ddarfod.

Hefyd fe gafodd amryw o weinidogion a'u teuluoedd fel cymdogion yn Llwyn Iorwg. Wedyn daeth Emyr a Joan a fu'n driw iawn iddi hyd y diwedd – hyd yn oed ar ôl iddynt symud i fyw i Glwt-y-bont, ac iddi hithau symud i Hafod y Gest.

Daliodd i fyw yn ei milltir sgwâr hyd yn oed ar ôl i'r capel gael ei ddymchwel, ddim yn bell oddi wrth ei ffrind pennaf, Eirwen Griffith, Caerbythod gynt. Wrth fynd yn fwy methedig yn ei henoed, symudodd i Gricieth ac wedyn i Gartref yr Henoed Hafod y Gest ym Mhorthmadog, yn agosach at Anne a Gwilym, tra bod Wena a John yn gofalu am fam John yn Gainsborough.

Ymgartrefu yma'n hapus (gan ei bod erbyn hyn wedi colli ei ffrind, Eurwen) a chael gofal da gan holl staff y cartref. Dwi'n siŵr y buasai'n hoffi cael enwi Edwina, ei ffefryn, a fu'n gofalu amdani yn hynod o annwyl, a'i chyd-breswyliwr, Mary, a fyddai'n cyd-gerdded â hi o amgylch y cartref. Byddent yn rhoi'r byd yn ei le ac mynd ar goll, fwy nac unwaith, os byddai unrhyw siawns! ac yn creu gwaith i'r staff ddod o hyd iddynt.

Ar hyd ei hoes roedd wastad yn cael amser i ofalu am berthynas neu'i gilydd, fel Nain Tan-y-weirglodd; Anti Maggie Bangor, neu Anti Sal Pen-y-groes, Waen, Penisarwaen – a cherddai filltiroedd yn ddyddiol ati hi, beth bynng fo'r tywydd. Fe gerddodd Wena a Gwilym gyda hi aml i waith dros gors y Waen, Penisarwaen, heb fath o olau, drwy niwl a glaw trwchus.

Yn eironig, ar ôl ei salwch olaf hi ei hun, fe gafodd hithau ofal hynod o arbennig ac addfwyn gan staff ward Glaslyn, Ysbyty Bron y Garth, Minffordd, hyd y diwedd.

## BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

SEFYDLIAD Y MERCHED. Cyfarfu'r gangen leol yn y Ganolfan nos Iau, Rhagfyr 15fed – cyfarfod olaf 2005. Dan arweiniad y llywydd, Pat Jones, bu'r aelodau yn ymafer eu dawn i greu crefftwaith Nadoligaidd. Mwynhawyd lluniaeth ysgafn i ddathlu'r Nadolig i gloi'r noson. Bydd cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd nos Iau, Ionawr 19eg, 2006.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD.

OEDFAON IONAWR 2006

1: Parch Dafydd Ll. Hughes, Caernarfon am 5.30
8: Parch Iorwerth Jones Owen, Caernarfon am 5.30
15: Mr Glyn Jones, Llanwnda am 5.30
22: Mr Robert M. Morris, Penygroes am 5.30
29: Mr Alun Rowlands, Bangor am 10.00.

## DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

NADOLIG LLAWEN. Oherwydd amgylchiadau personol ni fydd Andrew ac Alice Griffith, Tan y Bwlch, yn anfon cardiau Nadolig eleni. Dymunant Nadolig Llawen iawn a Blwyddyn Newydd Dda i'w teulu, ffrindiau a chymdogion, gan ddiolch i bawb am eu caredigrwydd yn ystod y flwyddyn.

CLWB ORWIG. Yn y cyfarfod ar 24 Tachwedd, gwahoddwyd Haf Thomas i'r clwb i dderbyn 2,250 o bum ceiniogau, a chyfraniadau ychwanegol a gasglwyd gan aelodau'r clwb tuag at yr Ambiwlans Awyr. Cyfanswm y casgliad oedd £145.

Cafwyd llawer o wybodaeth am y gwasanaeth clodwiw hwn, sy'n costio £175,000 y mis i'w gynnal, gan y siaradwraig wadd, Anna Evans. Gwethfawrogir pob rhodd a dderbynir.

Rhoddwyd gwobrau'r raffl gan Martin a Glenys o'r Veg Van a chan roddwyr y te, sef Nellie Wyn Jones a Morfudd Jones. Diolchwyd hefyd i Terry Taylor am drefnu i blannu 540 o gennin Pedr o gwmpas y Gofeb i'r Chwarelwyr yn Allt Ddu.

Llongyfarchwyd John Cantrell a Kathleen Davies ar ddathlu eu pen-blwyddi a mynegwyd ein diolchgarwch i Gyngor Cymuned Llanddeiniolen am eu rhodd o £100 i'r clwb.

Clywyd un o'r aelodau, sef Betty Ann Jones, yn cael ei holi ar raglen foreol Radio Cymru am gwrs cyfrifiadurol 'Cadw Mewn Cysylltiad' a drefnwyd ar ei chyfer hi a saith o aelodau eraill y Clwb gan 'Age Concern' a Mr Medwyn Williams o Goleg Menai ar gyfer pobl hŷn. Cynhelir gweddill y cwrs y flwyddyn nesaf yn Neiniolen.

ADREF O'R YSBYTY. Da yw deall for Mrs Katie Lloyd Hughes wedi dod adref o'r ysbyty, ac yn gwella yn araf deg. Mae wedi cartrefu yn ôl yn Bron Eryri. Yr wyf yn sicr ein bod yn dymuno Nadolig Llawen iddi a gwellhad iddi yn reit fuan. Brysiwch wella, Mrs Hughes.

Hefyd rydym yn anfon ein cofion at Mr Dafydd John Thomas, sydd yn cartrefu yng nghartref Plas Pen Gwaith, Llanberis, ac yn dymuno Nadolig Llawen iawn i chwithau. Pob bendith arnoch eich dau.

NADOLIG LLAWEN. Gaf i hefyd ddymuno Nadolig Llawen i bawb yn yr ardal. Hwyl yr ŵyl i chwi i gyd. Carwn hefyd ddiolch i rai a fu o gymorth yn ystod y flwyddyn i mi hefo gwaith yr *Eco*. Diolch yn fawr.


Dodrefn Da am Bris Discownt

THE SALES HALL
Y NEUADD ARWERTHIANT
**CWM-Y-GLO**
Ffôn: 01286 879060

Gwelyau • Matresi • Wardrobs • Cadeiriau a Byrddau • Cypyrddau • Byrddau Coffi a mwy.
Eitemau catalog a ddychwelwyd (newydd) a 'Seconds' Ffatrïoedd am brisiau rhad dros ben.
Ar Agor: **LLUN – SADWRN 10.30 – 5p.m.**

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb*



*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda*
*oddi wrth*



**Hywel Williams**
Aelod Seneddol



**Alun Ffred Jones**
Aelod Cynulliad

**Etholaeth Caernarfon**

**CYMORTHFEYDD**

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076** i wneud apwyntiad

neu

ysgrifennwch atynt:
**Swyddfa Etholaeth**
**8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE**

neu

e-bost: **williamsgw@parliment.uk**

# CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

CYDYMDEIMLO. Ar 28 Tachwedd bu farw tad Carey Jones, Tryfan, yn Ysbyty'r Waun, Cerdydd. Cydymdeimlwn â Richard Jones a holl deulu Carey.

PEN-BLWYDD O BWYS. Ar ddechrau'r mis roedd Arwel Huws, Perthi, Rhosbach, yn 50 oed. Llongyfarchiadau iddo!

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Llio ac Arwel Jones, Glanrafon Bach ar enedigaeth merch, Mari, chwaer bach i Iestyn.

GWASANAETHAU'R CAPEL. **Bore Nadolig am 10.00** (noder yr amser) cynhelir gwasanaeth byr ar gyfer y teulu i gyd. Croeso i bawb o bob oed.

**Ionawr**

1: Dim gwasanaeth
9: 11.00 Ysgol Sul
15: 11.00 Ysgol Sul
2.00 Parch Harri Parri
22: 11.00 Ysgol Sul
29: 11.00 Ysgol Sul
2.00 Parch Ronald Williams

GENEDIGAETH ARALL. Llongyfarchiadau i Gwenno ac Eryl, Bryn Mair, ar enedigaeth merch, chwaer bach i'r hogia.

CYNGOR CYMUNED. Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned y Waunfawr ar nos Fercher, 7 Rhagfyr, yn y Ganolfan, Waunfawr. Roedd y Cynghorwyr Vera Roberts a Clive James yn bresennol. Doedd dim gwrthwynebiad i'r cais cynllunio i greu mynedfa a pharcio i rif 10 Bryn y Gof. Mae Cyngor Gwynedd wedi caniatáu estyniad i Tŷ Newydd.

Mae'r Cyngor Cymuned wedi gofyn i Gyngor Gwynedd dacluso'r gordyfiant ar y grisiau nôl dŵr o Afon Beuno ac i archwilio'r ffos wrth ochr wal derfyn rhif 1 Bryn y Gof.

Derbyniwyd nifer o lythyrau o ddiolch gan rai o'r nifer o fudiadau a dderbyniodd arian gan y Cyngor a bydd y Cyngor yn monitro'r diolchiadau adeg ystyried grantiau yn 2006.

DYMUNIADAU'R TYMOR. Dymuna Tîm *Eco'r Wyddfa* yng Nghaeathro – Aled, Vera, Bethan a Clive, gyfarchion Tymor y Nadolig a Blwyddyn Newydd Dda i holl danysgrifwyr a darllenwyr yr *Eco* yn yr ardal. Diolch i chi am eich cefnogaeth yn ystod 2005.

## Cyfarchion Nadolig Caeathro

MODURDY
PLAS BACH
CAEATHRO
Ffôn: Caernarfon 672072
GWERTHU . TRWSIO
TRIN CYRFF . H.P. AR GAEL
NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I BAWB



# CHWILOTA



## 'Tyddynnod' Llanrug a Llanfairisgaer

Tua diwedd mis Tachwedd cefais gyfle i ymweld ag Archifdy Sir y Fflint am y tro cyntaf. Mae wedi ei leoli yn yr hen reithordy ym mhentref hynafol Penarlâg, ac yn agos iawn i Lyfrgell Sant Deiniol, y llyfrgell a sefydlwyd gan Gladstone, y prif weinidog. Roedd cofnodion yno'n ymwneud â phlwyf Llanrug a oedd yn dyddio'n ôl i'r unfed ganrif ar bymtheg. Yn y cyfnod hwnnw roedd rhannau o dir a ddaeth yn ddiweddarach i ffurfio ffermydd sylweddol Cefntre'rsaint (Kent) a Bodrual, yn eiddo i deulu'r Wynniaid, a oedd â chysylltiadau â Phenhesgyn ym Môn, a Phlas Nercwys yn Fflint. Yn yr un cyfnod hefyd roedd Wynniaid eraill – teulu Plas Llanfair, Llanfairisgaer – yn hawlio tiroedd ar hyd gwaelodion plwyf Llanrug. Ymhlith dogfennau'r ddau deulu, ceir sôn am felinau cynnar.

Mae dogfen ar gadw yn yr Amgueddfa Brydeinig yn Llundain, dyddiedig 26ain o Dachwedd 1584, sy'n enwi nifer helaeth o ddaliadau tir yn Llanfairisgaer a Llanrug. Mae amryw ohonynt yn anodd iawn i'w dehongli, oherwydd doedd gan yr ysgrifennwr nemor ddim gwybodaeth am enwau Cymraeg, heb sôn am sut i'w sillafu. Rhaid dyfalu'n aml ynglŷn ag ambell enw.

Daw'r enw 'tyddyn' i'r amlwg yn eithaf aml. Mae ystyr 'tyddyn' wedi newid dros y blynyddoedd. Yn ôl yr hen gyfreithiau Cymreig, pan fyddai treftadaeth yn cael ei rhannu rhwng y meibion, roedd y mab ieuengaf i gael 'tyddyn' ei dad, sef yr adeiladau, ac wyth erw o dir, a'r meibion eraill i gael wyth erw o dir a lle i adeiladu 'tyddyn' (sef adeiladau'r fferm). Tyfodd yr ystyr i olygu yr adeilad lle roedd rhywun yn byw ynddo, a'r tir o'i amgylch. Mae'r Athro T. Jones Piercde yn awgrymu mai tiroedd wedi eu cau (gan gynnwys lle i fyw ac adeiladau i'r anifeiliaid) oedd y tyddynnod, a'u bod wedi eu lleoli ar ffiniau'r caeau mawr agored a'r cytir. Mae nifer o ffermydd yng ngwaelodion plwyfi Llanrug, Llanddeiniolen ac yn Llanfairisgaer yn cario'r enw 'tyddyn'. Diflannodd yr enw o ambell fferm, ond cadwyd eraill mewn enwau caeau.

Yn Llanfairisgaer, daw'r enwau hyn i'r amlwg yn nogfen 1584: Tyddyn Talifon, Tyddyn fongam, Tyddyn boche (roedd hwn yn ddiweddarach yn rhan o blwyf Llanrug), Tyddyn y wern gwta, Tyddyn Einion (ap Gwion) gerllaw Crug, Tyddyn nant y felin, a Tyddyn cae duon gerllaw Crug. Enwir tiroedd eraill hefyd megis Cae Conglog, Cae yn y Crug, Tir Einion goch, a Corlan Offeiriad. Mae'n amlwg fod y rhain yn weddol agos at safle presennol Crug.

Ym mhlwyf Llanrug, enwir daliadau megis Allt Mathew,

TAFARN BRYNGWNA
Caeathro
Croeso mawr i bawb i'r 'Bryngwna' yng nghanol pentref Caeathro, lle ceir bwyd cartref ac amrywiaeth o ddiodydd traddodiadol, i gyd mewn awyrgylch cartrefol mewn tafarn bentref, yng nghwmni Alison a Steffan Bowen.
*Cinio dydd Sul a byrbrydau ar gael*
Ffoniwch **(01286) 674568** i gadw bwrdd neu archebu ymlaen llaw
*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb*

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH BAWB YN
GAREJ GWALIA
GWASANAETH TORRI LAWR 24 AWR
M.O.T. ★ TRWSIO CEIR




CAEATHRO
Ffôn 673096
HEFYD EIN SIOPAU
LONDIS
YNG NGHAEATHRO, LLANRUG a BETHESDA
Ar agor 7.30 a.m. – 10 p.m. bob dydd. Bwyd, diodydd, papurau newydd, fideos, bara, llefrith, ayyb

Criw Saint, Pandy Saint, ac Allt Tibot. Mae'n bosibl fod y rhain rhywle yng nghyffiniau'r Bontrug bresennol.

Hawliai'r Frenhines Elizabeth rent o wyth swllt a thair ceiniog oddi ar y tiroedd yn Llanfairisgaer, a thri swllt ac wyth ceiniog o Lanrug.

Mae'r dogfennau sydd ar gadw ym Mhenarlâg yn cyfeirio'n bennaf at diroedd o amgylch Bodrual. Mae dau gytundeb yn dyddio o 1500 a 1520 yn sôn am diroedd yn Rug, ond yn anffodus, ni roddir eu henwau. Roeddent yn eiddo i Dafydd ap Siencyn ap Llewelyn ap Madog, ac yn cynnwys adeiladau, tir, melinau a physgodlyn yn Llanrug a Llanfairisgaer. Yn 1536 enwir Melin Dafydd ap Siencyn yn Llanrug, ble bynnag ar afon Saint yr oedd honno.

Yna, yn 1618 ac 1619 daw'r cyfeiriadau cyntaf at Tyddyn Bodrual a Bodrual, sef cytundebau yn cynnwys nifer helaeth o diroedd ym Môn yn cael eu gosod ar lês i Robert Coetmor am dair punt, pum swllt ac wyth geiniog yn flynyddol.

Ni ddaw'r cyfeiriad nesaf hyd 1656, a hynny yng nghytundeb priodas Richard Wynne (aelod o Wynniaid Penhesgyn) ac Elizabeth Hughes, Porthamel, Môn. Enwir Bodrual, Melin Bodrual a Phandy Bodrual yn y cytundeb.

Mae'r cyfeiriadau at Bodrual a'r felin yno yn parhau i'r ganrif nesaf, ac yn 1749 mae'r felin yn cael ei gosod ar lês i Tobias Thomas, melinydd o Fiwmares. Byr fu ei arhosiad yno, oherwydd dair blynedd yn ddiweddarach daw James Browne, marsiandïwr tobaco o Gaernarfon yn denant ar Bodrual, gan gynnwys y felin. O fewn hanner can mlynedd arall gwerthwyd yr eiddo i berchennog Stâd Glangwna.

Mae llawer mwy o eiddo ym mharthau Llanfairisgaer, Llanddeiniolen a gwaelodion plwyf Llanrug wedi eu cofnodi yng nghasgliad Llanfair a Brynodol yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Efallai y cawn gyfle i gael golwg ar rai o'r enwau rheini yn y flwyddyn sydd i ddod.

**Plentyndod yn Llanberis**

Yn ôl yr addewid yn y rhifyn diwethaf, dyma gyhoeddi atgofion Rhian Williams, Rhiwbeina, Caerdydd, o'i phlentyndod yn Llanberis yn ystod ac wedi'r Ail Ryfel Byd. Pan anfonwyd y nodiadau hyn i mi, roedd Rhian ar fin cychwyn ar ei gwyliau i'r America – i ardaloedd â chysylltiadau Cymreig, sef West Bangor, Williamsburg a Bala Cynwyd, Pennsylvania. Efallai y cawn hanes rhai o ddisgynyddion y Cymry yn yr ardaloedd rheini pan fydd Rhian wedi dychwelyd i Gymru.

Flwyddyn union yn ôl, roeddwn yn sôn am y wyrcws a thlodi yn rhifyn Nadolig yr *Eco*, a dyna sbardunodd Rhian i roi'r atgofion hyn ar bapur.

* * *

'Fe wn yn dda am yr effaith a gafodd y wyrcws ar werin yr ardal. Nel Evans oedd fy nain. Cafod ei geni yn Llanrug, ond treuliodd ran helaeth o'i hoes yn Llanberis. Roedd hithau, fel eraill o'r to hŷn yn yr ardal, yn ofni gorfod mynd i'r wyrcws. Fe gâi syndod mawr o weld cymaint o wario ar yr holl anrhegion Nadolig y dyddiau hyn. Ni fyddem ninnau, blant Llanberis yn cael fawr bryd hynny 'chwaith: oren, afal, cnau a da-da fyddai yn yr hosan ar fore'r Nadolig. Byddai'r rhain yng ngwaelod yr hosan gyda phensiliau lliw, bocs o baent, llyfr lliwio a siwmper neu gardigan wedi ei gwau gartref. Y prif anrheg fyddai rhyw degan pren o wneuthuriad fy nhad. Cefais dŷ dol unwaith.

Wedi diwedd y rhyfel, byddwn yn cael llyfr yn lle'r anrheg pren: *Llyfr Mawr y Plant*, *Madam Wen* neu *Bandit yr Andes*. Cefais eiriadur Cymraeg/Saesneg unwaith. Sgwn i beth fyddai ymateb plant heddiw i'r fath anrheg?

Roedd digon o degannau i'w cael yn Siop Katie. Roedd y ffenestr yn llawn cyn y Nadolig. Treuliwn i (a llawer o blant eraill) oriau yn syllu drwy'r ffenestr mewn gobaith o gael un ohonynt yn fy hosan, ond fûm i erioed yn lwcus.

Byddai mam a nain yn gwneud bara brith at y 'Dolig. Cymysgedd teisen 'Dolig oedd o mewn gwirionedd, a byddai'r ddwy yn gwneud rhyw dair bob un a chael eu crasu ym mecws John Lloyd yn Stryd Newton. Doedd dim ffwrn nwy na thrydan yn ein tŷ ni, dim ond popty wrth ochr y tân. Roedd y bara brith o liw brown tywyll, ac yn llawn ffrwythau, gyda blas ardderchog. Doedd dim addurn o gwbl yn cael ei roi ar y bara brith. Roedd nifer o bwdinau Nadolig yn cael eu gwneud hefyd; un ar gyfer diwrnod Nadolig ei hun, a'r lleill i'w bwyta yn ystod mis Ionawr – wedi eu ffrio mewn menyn. Doedd neb wedi clywed am galorïau bryd hynny!

Ar ddydd Nadolig a Gŵyl San Steffan byddai tân yn cael ei gynnau yn y parlwr. Dyma'r unig adeg o'r flwyddyn y byddai hyn yn cael ei wneud, er fod defnydd o'r parlwr yn eithaf cyson gydol y flwyddyn; ond roedd cael tân yn y parlwr yn achlysur arbennig.

Canu carolau oedd uchafbwynt y gweithgareddau Nadolig – yn y capel, yr ysgol ac yng nghyfarfodydd yr Urdd, a byddai rihyrsio a dysgu wedi cychwyn o ganol Tachwedd. Cofiaf un flwyddyn yn arbennig oherwydd i ni ddysgu cytgan 'O deuwch ffyddloniaid' yn Lladin, a theimlo'n bwysig iawn yn medru canu yn yr iaith honno. Wedi'r ymarfer, cawn hwyl yn cerdded adref trwy'r tywyllwch yn chwarae ysbrydion. Byddai'r holl baratoi yn diweddu gyda gwasanaeth a pharti Nadolig yng nghapel Gorffwysfa.

Fu gennym erioed goeden Nadolig yn y tŷ, oherwydd mai bychan oedd yr ystafelloedd yn fy nghartref yn Stryd y Dŵr, ond byddai nhad yn hongian *kissing bush* o do'r gegin. Clwstwr mawr o gelyn oedd hwn wedi ei glymu'n dynn a'i addurno gyda llusernau papur a gwlân cotwm. Fe gâi'r gegin a'r parlwr eu haddurno gyda phapur sidan a digonedd o gelyn.

Wedi'r Nadolig byddem yn edrych ymlaen at y flwyddyn newydd a chael calennig. Dim ond gan nain a'i chwaer, Anti Mary, y byddem yn cael calennig. Roedd yr arferiad wedi marw allan yn Llanberis cyn fy nghyfnod i.'

* * *

Llawer o ddiolch i Rhian am rannu ei hatgofion â ni. Mae dau arfer yn mynnu sylw o'r atgofion uchod, sef y traddodiad o hongian cangen neu glwstwr o gelyn o'r to yn hytrach na chael coeden yn sefyll, a'r traddodiad o hel calennig yn marw allan. Tybed oes rhywun o fewn y fro yn hongian clwstwr o gelyn o'r to bellach yn hytrach na chael coeden binwydd? Nid hongian brigau o gelyn yma ac acw, ond clwstwr go drwchus gyda'i gilydd mewn un gongl.

A beth am hel calennig? Oes rhywun yn ceisio parhau â'r traddodiad? Anfonwch eich atebion – erbyn y 'Dolig nesaf!

**Atgofion am y Ceunant**

Fel yr oedd y nodiadau hyn ar fin cael ei hanfon i'r wasg, daeth gwybodaeth am lyfr Saesneg yn dwyn y teitl *Songs of Love and Songs of Longing – the wartime correspondence of Pem and Ivor Williams*. Mae'r llyfr wedi ei olygu gan Pamela, trydedd merch Ivor ac Emma (Pem) Williams, ac ynddo ceir hanes effaith yr Ail Ryfel Byd ar deulu cyffredin. Mae'r cyfan wedi ei gasglu ynghyd a'i olygu ar ôl mynegeio bron i bedair mil o lythyrau a ysgrifenwyd yn ddyddiol rhwng Medi 1939 ac Ebrill 1944, tra roedd y teulu wedi symud o Birmingham i Marvista yng Ngheunant. Enwau'r genethod oedd Christine, Nannette, Pamela a Diana. Tybed oes rhai o drigolion y Ceunant yn ystod y rhyfel diwethaf yn cofio'r teulu? Nid wyf wedi cael cyfle i gael gafael ar y gyfrol eto, heb sôn am ei darllen, ond mae'n ymddangos fod yma gofnod hynod bwysig o fywyd ar lethrau'r Cefn Du yn ystod blynyddoedd y rhyfel.

**Cofgolofn Caban Mills**

Yn fuan wedi i'r *Eco* diwethaf ddod o'r wasg daeth galwad ffôn i gadarnhau fod cofebau Caban Mills ar gadw'n ddiogel yn yr ystafell snwcer yn hen lyfrgell Deiniolen, a bod croeso i unrhyw un sydd am eu gweld i droi i mewn.

**Gweithwyr Cwm y Glo** – eto, ac am y tro olaf - efallai!

Dyma gau pen y mwdwl, gobeithio (!) ar y cais ynglŷn â'r llun o fechgyn Cwm y Glo a ymddangosodd yn y golofn hon beth amser yn ôl. Cyhoeddwyd yr enwau – ond roeddent yn anghywir. Cyhoeddwyd cywiriad – ond nid oedd yn gyflawn. Felly, dyma'r enwau, a'r hanes am dynnu'r llun gan un a oedd yno ar y pryd, sef Tom Vaughan Jones, o Gaernarfon bellach.

*Rhes gefn (chwith i'r dde):* Emyr Jones, (a fu'n gweithio i'r BBC yn ddiweddarach, ac yn dad i'r Parch John Glyn, Waunfawr); John Llywelyn Evans (prifathro'n ddiweddarach); Wyn Morris; Robert Henry Parry a Tom Vaughan Jones.

*Rhes flaen (chwith i'r dde):* Gordon Williams, Stesion; Johnnie Phillips; John Emlyn Watkins; John Morris Jones (brawd Tom Vaughan) ac Evan Roberts.

Mae Tom Vaughan Jones yn credu i'r llun gael ei dynnu tua 1951–52. Doedd dim byd yn arbennig yn yr achlysur, dim ond criw o ffrindiau a chymdogion a fyddai'n cyfarfod yn y becws yn aml. Ond mae yn cofio beth oedd arwyddocad y papur newydd yn cael ei ddal i fyny. Dywedwyd eisoes mai papur y *News of the World* sydd yn y llun, ond y pennawd oedd *'Sir Eric Phipps is back again'* neu eiriau tebyg, ac yn cyfeirio at y ffaith fod y gŵr hwn wedi ei ddychwelyd i'r Tŷ Cyffredin. A beth meddech chi oedd mor bwysig yn hynny i hogiau'r Cwm? Wel, roedd bachgen o'r enw Eric Phillips yn byw yn y pentref, ond fe'i gelwid yn 'Eric Phips', ac yr oedd cryn dipyn o dynnu coes wedi bod ynglŷn â'r ffaith fod Eric Phipps/Phillips wedi cael sedd yn Nhŷ'r Cyffredin.

Yr oedd diplomydd go bwysig o'r enw Syr Eric Phipps wedi bod yn amlwg yn ystod yr Ail Ryfel Byd, ond bu hwnnw farw yn 1945, felly, pwy oedd yr Eric Phipps arall?

Efallai nad yw hanes llun hogia Cwm y glo wedi gorffen!

Llawer o ddiolch i bawb a gysylltodd ynglŷn â'r ymholiadau gydol y flwyddyn a aeth heibio. Mwynhewch eich gwyliau, ac anfonwch unrhyw hanesion neu geisiadau mewn da bryd ar gyfer rhifyn Chwefror 2006 i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon.

(Ffôn: 01286 673515).

# BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

DOSBARTH CYNGANEDDU Bwriedir dechrau dosbarth cynghaneddu ym Methel wedi'r Nadolig. Y tiwtor fydd y bardd amryddawn, Karen Owen, sydd wedi bod mor agos i gipio y Gadair a'r Goron mewn Eisteddfodau Cenedlaethol yn ddiweddar. Hi hefyd yw Golygydd y cylchgrawn *Golwg*. Bydd y sesiynau dwy awr yn agored i bob haen o 'feirdd' o'r profiadol i'r 'dechreuwyr'. Y mae cryn ddiddordeb yn cael ei ddangos yn y fath grwpiau ledled Cymru ar hyn o bryd. Os oes gennych ddiddordeb – yn hen neu ifanc – mewn ymuno â'r grwp cysylltwch â Richard Llwyd (670115).

DIOLCH. Dymuna Megan Humphreys ac Elizabeth Evans, trefnwyr Cinio Nadolig 'Clwb Bro Bethel' ddiolch yn fawr i Carolynne a staff y Bedol, Bethel, am eu rhoddion, croeso cynnes a'r cinio Dolig ardderchog ar 6 Rhagfyr.

Diolch hefyd i bawb a gyfrannodd at y Raffl.

DYMUNIADAU gorau i Miss Nancy Humphreys, Tŷ Rhos, fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig yn 90 oed ar 2 Ionawr.

Hefyd i Megan Humphreys, Tre Gof, fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig ar 23 Rhagfyr.

CYDYMDEIMLWN yn ddwys fel aelodau o'r Clwb â theulu y ddiweddar Gwyneth Parry, Dôl Erw gynt. Bu yn aelod ffyddlon o Glwb Bro Bethel ers y cychwyn.

NADOLIG LLAWEN a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.



CYFARCHION NADOLIG BETHEL

**Peidiwch a Gori ar Stori anfonwch hi i'r ECO**

# UN FUNUD FACH

## TALU'N DYLED

O na fyddai'n wir! Byddai cannoedd yn cysgu'n dawel. Byddai miloedd yn rhydd o'u pryderon. A chaem ninnau wario fel y mynnem y Nadolig hwn heb boeni'r un iot am yr un ddyled na bil.

Un o'r amryw gwmnïau credyd yw hwnnw y gwelais ei arwyddion ar gwr yr A55 y dydd o'r blaen. Ydych chi'n cofio'r Beatles yn canu *'We can work it out'*? Mae'r cwmni credyd yn dweud y gall *'write it off'*. Dyna newydd da i'r sawl fydd yn gwario gormod y Dolig hwn. Dyna ryddhad i'r rhai a ddaliwyd yng nghrafanc dyled ddofn. Mae help wrth law trwy'r cwmnïau sydd am eu tynnu o'u trafferthion. Mae'r cwmnïau credyd am glirio'r dyledion i gyd. O na fyddai'n wir!

Digon posibl y gall y cwmnïau helpu trwy ostwng yr ad-daliadau rheolaidd. Ond yn hytrach na'u clirio maent yn cyfnewid hen ddyledion am rai newydd. Pa mor ffafriol bynnag y telerau a gynigiant, talu'n ôl sydd raid. Breuddwyd ffŵl yw'r gobaith am gwmni a ddaw i glirio ac i ddileu dyledion ei holl gwsmeriaid.

Ac eto, dyna'n union a wnaeth cwmni'r nefoedd. Pan ddaeth Iesu Grist i ddelio â phechod y byd roedd fel petai Duw ei hun yn gweiddi, *'We can work it out; we can write it off'*. Roedd pobl mewn dyled fawr, heb y gobaith lleiaf o'i thalu. Roedden nhw i fod i garu Duw ac ufuddhau iddo. Roedden nhw i fod i anrhydeddu Duw ym mhob dim a wnaent. Roedden nhw i fod i roi'r lle cyntaf i Dduw ym mhob rhan o'u bywyd. Ond doedden nhw ddim yn agos at wneud hynny. Doedden nhw ddim yn agos at setlo'r bil. Roedd eu dyled y tu hwnt i'w gallu i'w chlirio. A chanlyniad hynny fyddai methdaliad a cholli cymdeithas â'r Duw glân a pherffaith. Ond, er mawr ryfeddod, daeth yn Ddolig arnyn nhw, ac arnom ninnau

'Bydd (Mair) yn esgor ar fab, a gelwi ef Iesu, am mai ef a wareda ei bobl oddi wrth eu pechodau', oedd neges yr angel i Joseff. Dathlu dyfodiad y Gwaredwr hwn a wnawn ni'r Nadolig hwn eto. Mae Duw ei hun wedi clirio'r ddyled trwy wneud ei Fab yn gyfrifol amdani. Ar Galfaria fe gymerodd Iesu Grist y cyfrifoldeb am ein pechodau ni, a'r bai amdanynt. Fe dderbyniodd y ddyled oddi arnom, a mynd yn fethdalwr yn ein lle. Credwn mai dyna a wnaeth. Pwyswn ar yr addewid ei fod wedi clirio'n dyled.

Mae'r ddyled wedi ei chlirio'n llwyr. Cawsom faddeuant llawn a rhad. Mae cwmni'r nef wedi dileu'r cyfan a rhoi llechen lân i'r sawl sy'n credu'n yr Iesu. A bydd y llechen yn aros yn lân am byth.

'Dyma gyfaill haedda'i garu,
a'i glodfori'n fwy nag un:
prynu'n bywyd, talu'n dyled,
a'n glanhau â'i waed ei hun.'

JOHN PRITCHARD

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn*

**R. L. DAVIES**

Coed Bolyn Mawr, Bethel

**Offer i'w logi ar gyfer:**

- **tyllu *footings***
- **clirio gerddi**
- **neu unrhyw waith clirio safleoedd**



Hefyd: **Lle i wagio sbwriel *inert* a *Hardcore* ar werth**

Ffoniwch am fanylion **(01248) 671300** neu **(07775) 638620**

**Cefnogwch ein Hysbysebwyr**

CYFLENWYR PORTHIANT

**IDRIS MORRIS**

BWYDYDD ANIFEILIAID ANWES
GWERTHWYR NWY A GLO

**Y Fachell Llanddeiniolen**

**Ffôn: 01248 670439**



**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA**

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH


**ANN A BILLY HUGHES A STAFF**

**SIOP TREFLYN BETHEL**

**Ffôn: (01248) 670106**



Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn



**CEFNOGWCH FUSNESAU LEOL**

**www.ceircymru.com**

**Bethel (01248) 670451**

**(Hefyd yng Ngherrig-y-Drudion)**

Fel cwmni hoffem ddiolch i'r cannoedd o gwsmeriaid a gefnogodd ein busnes dros yr 16 mlynedd diwethaf. Rydym yn fusnes Cymreig sy'n amcanu i roi gwasanaeth ceir proffesiynol ac i werthu ceir am brisiau di-guro. Mae gennym brynwyr proffesiynol yn teithio dwy fil o filltiroedd yr wythnos i chwilio am y ceir gorau am y prisiau isaf.

Dymuniadau gorau ar gyfer 2006 i ddarllenwyr *Eco'r Wyddfa* ac ystyriwch hon fel adduned blwyddyn newydd: **'Rhowch gyfle i fusnesau Cymreig lleol ddangos eu gwerth yn hytrach na chwmnïau dyfod ac archfarchnadoedd Seisnig!'**

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda*

## Cynllun Gweithiwr Ieuenctid Dalgylch

*Eco'r Wyddfa*

Nos Fercher, 16 Tachwedd, cyfarfu pwyllgor y Cynllun hwn yn festri Capel y Rhos, Llanrug i drafod ymhellach y bwriad o gael gweithiwr ieuenctid i helpu eglwysi'r cylch gyda'u cenhadaeth ymhlith pobl ifanc y fro.

Buom yn trafod yr Holiadur a ddosbarthwyd trwy'r eglwysi ym mis Medi. Diolch yn fawr iawn i bawb a lanwodd yr Holiadur. Caiff yr atebion eu dadansoddi yn fuan, a bydd y pwyllgor yn cyfarfod wedyn i drafod sut orau i weithredu yng ngoleuni casgliadau'r dadansoddiad hwnnw. Mae argoelion cynnar pendant bod yna gefnogaeth frwd i'r syniad o gael gweithiwr ieuenctid.

Yn y cyfamser penderfynwyd gwneud dau beth:

- Penderfynwyd estyn gwahoddiad i rai pobl sy'n brofiadol yn y math hwn o waith i gynnig cyngor a chymorth i'w pwyllgor ar faterion penodol yn ymwneud â chynnal cynllun o'r math.
- Penderfynwyd hefyd sefydlu grŵp gweddi i weddïo dros y gwaith. Bydd hwn yn gyfle i aelodau'r pwyllgor ac unrhyw un arall ddod at ei gilydd i eiriol dros lwyddiant y cynllun. Bwriedir cynnal y cyfarfodydd gweddi yn fisol. Sylweddolwn bod llwyddiant y gwaith hwn, fel holl waith yr eglwys, yn dibynnu ar Dduw a'i allu.

Edrychwn ymlaen yn eiddgar at allu rhoi gwybod i chi am ddatblygiadau pellach mor fuan â phosibl.

## Dyfodol Addysg Gymraeg

Mae'r ysbryd arloesol ym myd addysg Gymraeg yn diflannu, yn ôl Heini Gruffudd, cyn-gadeirydd RHAG, mewn araith i Gronfa Glyndŵr yr Ysgolion Cymraeg nos Sadwrn, 12 Tachwedd. Dywedodd:

'Mae addysg Gymraeg yn pedlo'n wyllt i aros yn yr unfan. Mae'r nifer sy'n mynd i ysgolion cynradd Cymraeg wedi aros bron yr un fath gyda chynnydd o 49,000 15 mlynedd yn ôl i 51,000 erbyn heddiw.

'Dydi cynlluniau addysg Gymraeg Bwrdd yr Iaith Gymraeg ddim wedi dwyn ffrwyth a does dim sôn am ddatblygu addysg Gymraeg yn nogfen' Iaith Pawb' y Cynulliad.

'Yn yr ysgolion cyfun Cymraeg mae problemau bellach. Dim ond mewn enghreifftiau prin iawn y clywir disgyblion yn siarad Cymraeg ar y buarth ac mae'r dylanwadau Eingl-Americanaidd yn orchfygol.'

Cynigiodd Heini Gruffudd bedwar pwynt i ymateb i'r argyfwng a'r her o alluogi 50% o bobl Cymru i siarad Cymraeg erbyn 2050.

Yn gyntaf dywedodd fod angen ehangu'r maes Cymraeg i Oedolion yn sylweddol. Yng Ngwlad y Basg mae'r llywodraeth yn buddsoddi £30m yn y maes hwn, ac wedi sefydlu 150 o Ganolfannau Iaith gan sicrhau fod pobl sy'n dysgu'r iaith yn cael 1500 awr i ddod yn rhugl.

Yn ail mae angen cynyddu'r nifer o ysgolion Cymraeg.

'Mae sefydlu ysgol Gymraeg newydd yn broses sy'n gallu cymryd 7 mlynedd (mewn rhai ardaloedd) ac mae'n rhaid edrych ar ffyrdd newydd i ehangu'n gyflym. Yr hyn sydd ei angen yw sicrhau ble bynnag mae 4 neu 5 ysgol gynradd Saesneg, fod un yn troi yn Gymraeg mewn cyfnod byr iawn.

'Mae'n rhaid hefyd edrych ar y sector addysg Saesneg ac ar y camau sy'n digwydd yno i ddysgu Cymraeg.' A dyma oedd ei drydydd pwynt. Dywedodd bod rhai enghraifftiau ardderchog, megis Ysgol Gyfun Treorci, lle dysgir nifer o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg. Ond rhaid sicrhau, meddai, nad ydym yn camarwain pobl oherwydd y nod yw sicrhau fod y disgyblion i gyd yn rhugl yn y Gymraeg.

'Ni allwn gael dwy safon iaith – gyda rhai yn mesur yn ôl safonau ail-iaith. Rhaid i bawb gael deall pa safon maent wedi cyrraedd yn y gallu o siarad a defnyddio'r iaith. Ar y pwnc hwn,' meddai, 'diddorol, a dweud y lleia, yw ystyried pa ffon fesur a ddefnyddiodd rhai i ateb ffurflenni'r cyfrifiad diwetha.'

Yn bedwerydd pwynt, dywedodd fod angen sicrhau dilyniant o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd Cymraeg, yn arbennig yn yr ardaloedd Cymraeg eu hiaith. Mae'r nifer o blant sy'n cael eu colli wrth drosglwyddo o addysg gynradd Cymraeg i addysg uwchradd yn sylweddol – ac yn drist. Mae'r ganran sydd ddim yn mynd i ysgolion cyfun Cymraeg gymaint â 48% yn Sir Conwy, 41% ygn Ngheredigion a 31% yng Nghaerfyrddin.

'Mae'r gwaedlif hwn yn sylweddol – ac yn un y gellir ei atal.' Dyma un maes, meddai, lle mae gwir angen atgyfodi'r ysbryd arloesol.

'Addysg yw'r un maes lle mae gennym yng Nghymru ymreolaeth lwyr,' dywedodd i gloi. 'Rhaid i ni gael Polisi Cenedlaethol i roi arweiniad clir i'r Awdurdodau Lleol – neu aros yn yr unfan y byddwn ni.

***Troednodyn***

*Mae Cronfa Glyndŵr yr Ysgolion Cymraeg ar hyn o bryd yn cefnogi'r 'ysbryd arloesol' yn nalgylchoedd Ysgol Gyfun Gŵyr, Ysgol Gyfun Llanhari, Ysgol Gyfun Cymer Rhondda ac Ysgol Gyfun Gwynllyw. Am fwy o wybodaeth am waith y Gronfa neu i wneud cais am gymorth, croeso i chi gysylltu â'r Trysorydd: Margaret Griffiths, Llanddwyn, 7 Bryn Siriol, Tŷ Isaf, Caerffili CF83 1AJ (02920 867909).*


Y Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278
www.ybistro.co.uk
Perchnogion: DANNY a NERYS ROBERTS
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr yr Eco

Mae pobl dros 50 oed yn ymddiried yng nghynhyrchion a gwasanaethau Age Concern
Yswiriant Cartref
Yswiriant Cerbydau a Diffyg ar y Modur
Yswiriant Teithio
Cynlluniau Angladd
Cyflenwadau Trydan a Nwy
Am fwy o wybodaeth ymwelwch â ni yn:
Nadolig Llawen i bawb
AGE Concern
Age Concern Gwynedd a Môn
Tŷ Seiont, Ffordd Santes Helen,
Caernarfon, Gwynedd LL55 2YD
01286 678310
gan ddyfynnu'r cyfeirnod: ECO'R WYDDFA

Fframia Gwasanaeth Fframio Lluniau
Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd
Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis eang yn cynnwys:
WILLIAM SELWYN • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda
PARC PADARN, LLANBERIS (870922)
(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo
MENAI SEWING MACHINE CENTRE
21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (01248) 714043
neu Caernarfon
Ffôn: (01286) 674520
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
GwalltGo
Stryd Goodman, Llanberis
(Tu ôl i'r Bistro)
Siop trin gwallt Merched, Dynion a Phlant
Cysylltwch â Dilys neu Ffion
01286 872414
Oriau agor:
Mawrth – Iau: 9am – 5.30pm
Gwener: 9am – 7.30pm
Sadwrn: 9am – 4pm

Am Offer Tŷ a Gardd...
FORMAG
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Ifor a Margaret
41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872501

NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
ODDI WRTH CARMEN A PHAWB
YN NHAFARN Y

SNOWDONIA PARC

**WAUNFAWR Ffôn: 650218**

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

**Dewch gyda'r trên stêm
o Gaernarfon ac aros
AM GINIO DA!**

Rydym yn syrfio bwyd blasus drwy'r dydd,
bob dydd o 11 am – 8.30 pm

A 'does dim rhaid dod ar y trên!
Cofiwch... **bob dydd Sul**...
cinio traddodiadol £5.95
Bwyd cartref blasu
o gynnyrch lleol

Mae
Lleufer, Nelma,
Tegid a Sam Pritchard

**CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR**

**Ffôn: (01286) 650 291**

yn dymuno diolch am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

***Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll.***

★ O LEIAF 60 O WELYAU MEWN STOC
★ 5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI
★ 40 O '3-PIECE SUITES'

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

**WELDPAR**
CYMRU WALES
**CANOLFAN OFFER WELDIO
WAUNFAWR Ffôn: 650720**

Mae pawb yn
**SIOP SGLODION Y PENTREF**
***THE VILLAGE CHIPPY***
**WAUNFAWR, Ffôn: 650683**
yn dymuno Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y pentref
(Byddwn yn ailagor ar 9 Ionawr)

**NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN
NEWYDD DDA**

i holl gyfeillion yr Antur ym
mro'r Eco

Antur Waunfawr
ANTUR WAUNFAWR
01286 650 721 www.anturwaunfawr.org

SFP

*Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn*

**SNOWDONIA FIRE PROTECTION**
**YR HEN EFAIL, WAUNFAWR**
**Ffôn: (01286) 650235**
**Hefyd: Uned 10 TIR LLWYD, BAE CINMEL (01745) 360445**

OFFER DIFFODD TÂN – masnachol ac i'r cartref
OFFER CANFOD MŴG ar gyfer y cartref
GOLEUADAU ARGYFWNG
LARWM TÂN, a llawer mwy
i'w gweld yn ein swyddfa.

BSI REGISTERED FIRM

Ymestyniad Ffôn wedi Torri?
Angen rhai Newydd? os felly
☎ FFONIWCH ☎
(01286) 650247 neu (07780) 811617 (symudol)

Eifion Hughes (7 diwrnod)

*Gwasanaeth Da am Bris anhygoel*
*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda*

**CARPEDI GERAINT OWEN**

**GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED a FEINYL**
**CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC**

**FFONIWCH UNRHYW AMSER: WAUNFAWR (01286) 650552**
***Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr yr Eco.***



Cyfarchion
Nadolig
**WAUNFAWR**

# WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

CLWB 300. Enillwyr y Clwb am fis Tachwedd: £40: Mr G.O. Jones, 6 Dôl Erddi; £25: Mr G.S. Hughes, Sŵn y Gwynt, Groeslon; £10: Mrs Gwen Otten, 4 Pant y Waun.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Mewn cyfarfod o'r Sefydliad a gynhaliwyd yn Eglwys y Waun ar 1 Rhagfyr, croesawodd Catherine Jones, y Llywydd, Mrs Annie Thomas fel aelod newydd. Roedd Mrs Thomas wedi bod yn aelod gweithgar iawn am flynyddoedd o'r blaen a mawr hyderir y bydd yr un mor weithgar eto.

Cafwyd cwis wedi ei drefnu gan Pat Parry yn ystod y prynhawn a buan iawn y daeth i'r amlwg ble roedd y 'brains'! Diolchodd Catherine i Pat am bnawn hwyliog. Enillydd y raffl, wedi ei rhoi gan Iris Evans, oedd Nancy Buckley. Y cyfarfod nesaf fydd y Cinio Nadolig yn y Bistro, Llanberis ar 5 Ionawr 2006.

PLAID CYMRU. Gwnaed elw o dros £300 mewn noson gyri bleserus yn Antur Waunfawr. Trefnir rhaglen lawn yn y flwyddyn newydd, fydd yn cynnwys teithiau cerdded a helfa drysor.

Etholwyd y pwyllgor canlynol:
Cadeirydd: Eurig Wyn; Ysgrifennydd: Rob Jones; Ysgrifennydd Aelodaeth: Beryl Jones; Is-Ysgrifennydd: Iola Ynyr; Trysorydd: John Gwynedd; Cynrychiolydd ar y pwyllgor rhanbarth: John Glyn; Cynrychiolwyr i'r Cyngor Cenedlaethol: Eurig Wyn a/neu Meg Elis. Aelodau'r pwyllgor: Rhys Jones, Cadi Jones, Huw Ynyr a Gill Wyn.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs O.T. Jones, Bryn Gwenallt, ar ddathlu hanner cant a saith mlynedd o fywyd priodasol.

DERBYN GWOBR.
Llongyfarchiadau i Aled Taylor, Dôl Erddi, ar dderbyn gwobr o anrhydedd gan dîm Achub ar y Mynydd, Llanberis. Mae Aled wedi bod yn aelod o'r tîm ers deugain mlynedd.

'Mae'n fraint cael derbyn gwobr fel hon,' meddai Aled, 'ond rwy'n falch o allu gwneud gwaith gwirfoddol fel hyn.' Dymuna Aled ddiolch i'r rhai a'i henwebodd.

CYDYMDEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Mrs Carys Jones a theulu Ty'n Cae yn eu profedigaeth o golli mam Carys yn ddiweddar.

CROESO ADREF O'R YSBYTY i Mr T. Griffith, Ty'n yr Onnen. Gobeithiwn yn fawr y byddwch yn gwella ac yn teimlo yn well wedi cael dod adref.

Anfonwn ein cofion hefyd at Mr Paul Evans, Rhoslwyn, sydd yn yr ysbyty ym Mangor ar hyn o bryd yn derbyn profion.

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau am Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i'r pentrefwyr ac i'r rhai sydd mewn cartrefi preswyl ar hyn o bryd.

YR YSGOL SUL. Rhaid canmol plant yr Ysgol Sul am ddysgu eu gwaith ar gyfer gwasanaeth y Nadolig a diolch i Siôn Corn am alw i'w gweld.

APEL. Mae'n anodd credu ond ydy'n wir, mae bron i flwyddyn er pan roeddym yn plygu'r *Eco* yn festri capel Eglwys y Waun. Ni fydd yn gyfrifol am blygu'r rhifyn nesaf ddaw o'r wasg ddiwedd mis Ionawr, 2006. Gofynnwn yn garedig i bob un sydd ac ychydig o amser ar nos Iau olaf y mis ddod atom i'r festri i helpu gyda'r gwaith. Mae pob pâr o ddwylo yn help, ac mae 'na gyfle am sgwrs hefyd. Diolch.

YR URDD. Mae Adran Urdd y pentref wedi cychwyn cyfarfod eto eleni yn y Ganolfan gyda oddeutu 20 o blant rhwng 7 ac 11 oed wedi ymaelodi hyd yma.

Cychwynnwyd y flwyddyn gyda chyfarfod rhieni a phlant i drefnu nosweithiau, a hyd yma y tymor hwn rydym wedi cael nosweithiau llwyddiannus, yn cynnwys noson o gemau bwrdd, noson o weithdy drama gyda Iola Ynyr, diolch iddi am roi ei hamser.

Rydym wedi cael trip i Bwll Nofio Bangor lle bu hefyd 5 o enethod o'r Adran, sef Gwenllian, Gwenan, Hannah Mair, Anya ac Elin yn cystadlu yn Gala Nofio'r Urdd ar ddydd Sadwrn, 26 Tachwedd. Diolch i Caroline Davies am drefnu ar ran yr Adran, ac hefyd diolch i'r genod am gystadlu a da iawn chi.

Cawsom noson o waith llaw yr wythnos ddiwethaf a noson o ganu Carolau o amgylch y pentref yr wythnos yma. I orffen y tymor rydym wedi trefnu noson yng nghwmni Dynamic, eto diolch iddynt am eu parodrwydd i roi eu hamser i ddod atom.

Bydd yr Adran yn cwrdd eto yn y flwyddyn newydd lle bydd llond sach o nosweithiau cyffrous wedi eu trefnu eto ar eu cyfer.

ADREF O'R YSBYTY. Croesawn dri o blant bach y pentref adref o'r ysbyty. Cafodd Gwion Lowe, Ger y Ffynnon, driniaeth tynnu ei donsiliau, a bu Carwyn, mab bach Rhian a Clive, Stad Tŷ Hen a Dylan, mab bach Rhian a Martin, hefyd o Stad Tŷ Hen, yn cael triniaeth wedi iddynt gael niwmonia.

Gobeithio yn wir y byddwch yn holliach erbyn bore 'Dolig er mwyn i chi gael chwarae gyda'r teganau y bydd Siôn Corn wedi eu gadael ichi.


LLYSIAU, FFRWYTHAU, BWYDYDD
AC ANGHENION ANIFEILIAID ANWES

**GARTH MAELOG**

**51 Stryd Fawr, Llanberis**

**Ffôn: 870840**

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda*


# Yng Ngafael y Gaeaf

Os yw rhagolygon Swyddfa'r Tywydd yn gywir, fe fydd ein bywyd gwyllt yn wynebu eu gaeaf caletaf ers sawl blwyddyn. Efallai nad yw'r tywydd oer yr ydym newydd ei brofi yn arwydd o hyn, ond mae'n siŵr fod yr eira wedi rhoi ysgytwad i'n hanifeiliaid gwyllt – er bod yr hydref mwyn a gawsom wedi rhoi cyfle i ddraenogod, llygod ac ystlumod fwyta digon cyn mynd i'w gaeafgwsg.

Fe all gaeaf oer beri problemau lu i'n bywyd gwyllt. Diffyg bwyd yw'r broblem amlycaf, wrth gwrs; ond fe all diffyg dŵr am amser maith gael effaith andwyol ar adar a mamaliaid bach. Gan eu bod yn adar mor fychan, drywod sydd fwyaf tebygol o ddioddef o blith ein hadar brodorol, ac er mwyn ceisio goresgyn yr oerni maen nhw'n swatio at ei gilydd mewn nyth sydd wedi ei leinio â phlu.

**Help llaw...**

Ar adegau fel hyn, fe all rhoi rhywfaint o fwyd a dŵr i'r adar wneud gwahaniaeth mawr, ac yn ystod tywydd garw iawn fe all hyn achub bywydau nifer ohonyn nhw. Mae'r tiwbiau bwydo plastig a metel yn saffach i'r adar na'r rhwydi, gan fod eu coesau o dro i dro yn mynd yn sownd yn y neilon (dylid glanhau'r offer bwydo – dilynwch argymhellion y gwneuthurwyr). Hefyd, mae bwrdd adar syml yn boblogaidd dros ben gyda'r adar. Mae hadau cymysg yn fwyd da i'w ddefnyddio yn ystod y gaeaf gan eu bod yn llawn ynni, ond mae tameidiau o groen bacwn, neu reis neu datws wedi eu berwi, hefyd yn boblogaidd gyda'r adar.

Er ein bod yn teimlo'r oerni yn ystod misoedd y gaeaf, mewn gwirionedd gaeafau eithaf mwyn a gawn o ystyried y rhai a gaiff gogledd a dwyrain Ewrop. Yr adeg yma o'r flwyddyn y daw ardaloedd gorllewinol Prydain yn gartref i adar sy'n mudo o afael y tywydd oer. Socan yr eira, sef aelod o deulu'r fronfraith, yw un o'r adar mwyaf nodedig o blith y rhain, ac mae modd gweld heidiau ohonyn nhw'n hedfan o amgylch y bryniau a'r gwrychoedd yn chwilio am ffrwythau neu aeron ola'r tymor.

**Trydar y robin goch**

Does ryfedd, felly, nad yw'r adar yn canu rhyw lawer yr adeg yma o'r flwyddyn – er bod y robin fel petai'n gwrthod ildio i'r oerni, gan barhau i drydar trwy dawelwch boreau'r gaeaf. Os daw yna dywydd mwynach yn ystod mis Ionawr, fe fyddwn yn siŵr o glywed y titw tomos las, y dryw, llwyd y gwrych a'r fronfraith yn datgan bod y tymor magu ar fin dechrau.

Bendith yw mai mis Chwefror yw mis byrraf y flwyddyn. Yn ystod y mis yma y gwelwn ni aderyn mwyaf atgofus ein harfordir a'n hucheldir – sef y gigfran – yn paru. Tua dechrau'r mis, gellir gweld parau'n gwneud campau fry uwchben, yn plymio a throi a throsi er mwyn denu'r cymar. Mae'r campau yma'n arwydd bod gaeaf hir o chwilio am sborion ar fryniau a mynyddoedd llwm Cymru ar ben, a bod y gwanwyn ar fin dychwelyd unwaith eto.

JONATHAN NEALE
CYNGOR CEFN GWLAD

# CLWB ERYRI

Ar ôl y cyfarfod hwyliog a gynhaliwyd yn y Caban ym Mrynrefail i ddathlu pen-blwydd y Clwb yn 50 oed, cyfarfu'r clwb ddwywaith dan ofal Llwyydd y Tymor, Dafydd Ellis, Brynrefail.

Dafydd oedd y siaradwr yn y cyfarfod cyntaf a chafwyd noson ddifyr iawn yn ei gwmni wrth iddo sôn am ei ddiddordeb mewn gwaith coed. Dangosodd nifer o ddarnau o'i waith ac aeth ymlaen i sôn am y cymeriadau ffraeth yn Nyffryn Lledr a ysgogodd ei ddiddordeb mewn gwaith coed. Cafwyd trafodaeth ddifyr ymysg yr aelodau wrth sôn am grefftwyr medrus a weithiai yn lleol yn y chwarael a mannau eraill. Ar ddiwedd y sgwrs cyflwynodd Dafydd forthwyl pren hyfryd, a wnaeth at ddefnydd y Llywydd, fel cyfraniad at ddathliadau pen-blwydd y Clwb.

Hon oedd y noson gyntaf o'r arbrawf newydd, sef cael un o'r aelodau i siarad am ei hoff ddarn o farddoniaeth neu gelfyddyd. Gwnaeth John Huw Hughes waith ardderchog wrth sôn am y Bardd fel Artist. Croesawyd John McBryde, Brynrefail, yn gynnes iawn fel aelod newydd.

Yng nghyfarfod mis Rhagfyr, y Dr Eurwyn Lloyd Evans, Llanrug, oedd siaradwr y noson. Testun ei sgwrs oedd hanes a diwylliant Cyn-frodorion Awstralia. Rhoddodd ddisgrifiad byw o'u ffordd o fyw, eu celfi, eu diwylliant a'u harferion cymdeithasol. Anogodd sylwadau'r siaradwr ar y modd y bu i ddylanwadau estronol ymyrryd ag arferion a ffordd o fyw y cyn-frodorion, ar drafodaeth ddifyr o'r llawr. Crybwyllwyd ymdrechion i ddelio â'r problemau cymdeithasol ac ar feddiant tir – nid yn unig yn Awstralia ond mewn gwledydd eraill, megis America.

Cafwyd cyflwyniad celfyddydol y noson gan Frank Green drwy iddo ddangos enghreifftiau o'i waith ei hun gan egluro y dylanwadau fu arno wrth gynhyrchu'r gwaith. Wrth ddiolch dywedodd Dr Dan Hughes fod yn well ganddo wrando ar artist fel Frank na'r 'hen feirdd yna'!

Yn y cyfarfod nesaf, ar 6 Ionawr 2006, bydd Geraint Huws Roberts yn annerch gyda R. Gwynn Davies yn y gadair.

Os ydych yn dymuno cael copi o'r llyfr i ddathlu *Clwb Eryri yn 50 oed* (2005), gellwch gysylltu â'r Ysgrifennydd, Gwyn Hefin Jones, Rhadir, Brynrefail (Ffôn:01286 870848).

# YSGOL BRYNREFAIL EISTEDDFOD

## Stori fuddugol Cystadleuaeth y Gadair

**Heno**

Tic-toc, tic-toc...

Syllodd Sian ar fysedd mawr y cloc yn y caffi'n llusgo'n araf. Dim ond pum munud oedd wedi mynd heibio ers iddi edrych ddiwethaf. Eisteddai un hen wreigan ar ei phen ei hun yn sipian ar baned o de gan edrych allan drwy'r ffenestr ar brysurdeb y prynhawn. Roedd y caffi'n ddistaw fel y bedd a phob munud aethai heibio'n teimlo fel awr. Pwysodd Sian yn ddiamynedd ar y cownter gan feddwl am ddi-ddimdra ei bywyd. Roedd heno'n mynd i fod yn annodd i ddygymod ag ef, heno oedd y noson oedd yn mynd i'w hatgoffa o'r gorffennol.

* * *

Yn bymtheg oed roedd Sian yn berson allblyg a galluog iawn. Roedd hi'n gwneud yn arbennig o dda yn yr ysgol a chafodd ganlyniadau Lefel O ysgubol. Breuddwyd Sian oedd mynd yn ddeintydd. Oni bai am yr hunllef o noson ddeunaw mlynedd yn ôl, byddai ei breuddwyd wedi ei wireddu. Ond oherwydd y noson honno, mewn tŷ cownsil roedd Sian yn byw ac yn codi bob bore i fynd i'w gwaith mewn caffi ym mhentref Cwm Isaf. Ond roedd gan Sian un trysor yn ei bywyd, ei merch, Elin. Er fod Sian yn meddwl y byd o Elin, roedd hi'n methu peidio â theimlo ym mêr ei hesgyrn mai Elin oedd yn gyfrifol am fethiant ei bywyd.

* * *

Tic-toc, tic-toc...

Roedd amser yn dal i fynd yn ei flaen yn y caffi a dim ond hanner awr ar ôl nes y byddai Sian yn cael mynd adref. Aeth yr hanner awr heibio fel oes. Paciodd ei bag a dechrau gwneud ei ffordd am adref. Fel arfer byddai Sian yn mynd adref drwy Gwm Pennant er mwyn osgoi pasio hen gartref yr anghenfil. Ond roedd hi wedi penderfynu heno nad oedd hi am ddioddef rhagor ac mai'r unig ffordd i ddod dros ei hunig ofn mewn bywyd oedd ei wynebu. Roedd y noson honno wedi bod yn un niwl yng nghefn ei meddwl ers deunaw mlynedd, ond heno roedd y mwg yn dechrau clirio.

* * *

Roedd Sian wedi aros ar ôl yn yr ysgol er mwyn gorffen ei gwaith cartref Cymraeg ac roedd hi'n chwech o'r gloch cyn iddi adael. Wrth iddi gerdded allan yn nhywyllwch noson o aeaf clywodd sŵn traed yn y pellter. Nid oedd neb mewn golwg ac mewn braw dechreuodd redeg nerth ei thraed. Ond roedd ei choesau'n wan a'i goesau ef mor fawr a chyhyrog. Cyn pen dim roedd ei freichiau'n dynn amdani a'i law dros ei cheg wrth iddi sgrechian nerth esgyrn ei phen. Ond doedd dim pwynt ymladd, roedd o'n rhy gryf. Doedd dim dewis gan Sian ond gadael iddo gael y gorau ohoni. Ond daeth un daioni o'r hunllef hwn – Elin.

* * *

Daeth pasio'r tŷ hwnnw â llawer o atgofion chwerw'n ôl i Sian, atgofion na allai eu claddu yn y gorffennol. Wrth iddi gyrraedd adref roedd Elin yn gwylio'r teledu yn yr ystafell fyw. Teimlai Sian yn falch ohoni, ond eto teimlai'n euog am garu plentyn treisiwr. Gwyddai nad bai Elin oedd o, ac nad y hi ddewisiodd i hyn i gyd ddigwydd, ond allai Sian ddim peidio meddwl ei fod o yn rhan o Elin a bod tebygrwydd rhyngddynt.

* * *

Dyma oedd yr holl bethau y bu'n rhaid iddi eu hystyried wrth orfod gwneud penderfyniad mwyaf ei bywyd; cadw'r babi a gorfod wynebu'r gorffennol, ynteu cael gwared o'r babi a byw hefo'r ffaith ei bod wedi lladd ei phlentyn ei hun. Ond doedd Sian ddim eisiau bod yn hunanol. Efallai fod ei phlentyndod hi drosodd ond roedd yn ddechrau ar blentyndod ei phlentyn. Roedd hi wedi cael byw ei phlentyndod, doedd hi ond yn deg i'r baban gael yr un cyfle. Cofiodd Sian am ei geiriau wrth ei mam yn bymtheg oed:

'Tydi o ddim yn deg mam, plis nei di fy helpu i wneud y penderfyniad hwn? Dydw ddim eisiau bod yr un sy'n teimlo'n euog yn y sefyllfa hon, fo ydy'r un euog ac mi geith o ei haeddiant. Tydw i ddim eisiau gorfod wynebu fy haeddiant, dwi ddim eisiau difaru.'

'Na, mi wn Sian bach, ond gall cadw'r babi 'ma gau bob drws i ti, a beth am fynd yn ddeintydd? Fydd o jest ddim yn bosib.'

'Efallai bod pethau pwysicach na chael swydd dda a gwneud arian mawr mam. Pethau fel cariad a chydwybod.'

* * *

Heno, yn 33oed, roedd Sian yn gwybod bod gwirioni yn ei geiriau yn bymtheg oed. Ond oedd Sian wedi anghofio am bwysigrwydd cariad a chydwybod yn y deunaw mlynedd diwethaf? Roedd Sian yn gwthio Elin i wneud yn dda ac roedd hi am i Elin fynd yn ddeintydd, efallai gan ei bod hi wedi colli ei chyfle a'i bod eisiau i Elin wneud yn fawr o'i gallu.

Heno daeth yr holl siom a'r teimladau oedd wedi croni ers deunaw mlynedd allan yn ofnadwy o annhrefnus.

* * *

Trodd Elin i edrych ar ei mam a oedd newydd gerdded i mewn i'r ystafell fyw gan ddweud:

'Haia mam, rwyt ti adref yn fuan heno.'

'Es i ddim drwy Gwm Pennant, es i heibio ei dŷ o.'

Roedd Elin yn gwybod yr hanes yn iawn. Credai Sian ei fod o ond yn deg iddi gael gwybod y gwir am ei chythraul o dad. Beth bynnag, fyddai o byth yn dad iawn iddi yn ngeiriau ei mam.

'Wyddost ti pa noson yw hi heno?' gofynnodd Sian i Elin.

'Gwn, mi wn yn iawn,' atebodd Elin.

'Wyt ti'n meddwl y gwela i fy nhad rhyw ddiwrnod, Mam?'

'Byth bythoedd,' atebodd Sian yn syth, 'Mae'r dyn yna wedi gwneud digon o ddifrod.'

Daeth poen i lygaid Elin a dywedodd mewn llais swta;

'Difrod? Ai dim ond difrod fues i i dy fywyd mam?'

'Naci siŵr,' atebodd Sian yn sydyn, 'ond roedd gen i ddyfodol disglair o fy mlaen nes i'r anghenfil yna ddifetha pob dim.'

'Dyfodol disglair? Mynd yn ddeintydd ti'n feddwl? Dyna pam wyt ti am i mi fynd yn ddeintydd, de Mam?' gofynnodd Elin.

'N-a... wel 'falle,' atebodd ei mam gan roi ei phen i lawr.

'Mae'n rhaid i ti sylweddoli na alla i fyw i ddilyn dy gysgod. Mae gen i fy mreuddwydion a fy ngobeithion fy hun.'

'Mi wn i Elin, ond roeddwn i'n meddwl y buasat eisiau fy ngweld i'n falch ohonot, wedi'r cyfan, ti yw'r rheswm dros i mi fethu â mynd yn ddeintydd.'"

Roedd y boen yn fwy gweladwy fyth yn llygaid Elin y tro yma. Fe'u gorchuddiwyd gan haen drwchus o ddŵr. Edrychodd Elin yn ddiamddiffyn ar ei mam a gofynnodd;

'Wyt ti'n fy meio i am ddifetha dy fywyd?' Parhaodd Sian i edrych ar y llawr gan ddweud dim. Ar y foment honno, diflannodd Elin i fyny'r grisiau cul.

Aeth Sian i eistedd i'r ystafell fyw. Gofynnodd i'w hun:

'Fues i'n annheg?' Meddyliodd am yr holl atgofion hapus ohoni hi'n blentyn. Gwenodd Sian wrthi'i hun – yr oedd hi'n blentyn hapus. Yna meddyliodd am Elin yn blentyn a diflannodd y wên oddi ar ei hwyneb. Prin y gallai gofio gweld Elin yn chwerthin.

'Efallai fy mod wedi bod yn annheg,' dywedodd Sian wrth i'r dagrau gronni yn ei llygaid. 'Rwyf wedi gadael i fy mreuddwyd deyrnasu dros gariad. Nid y fi yw'r unig un mae hyn wedi'i effeithio. Os rhywbeth, mae wedi cael mwy o effaith ar Elin. Sut gallwn i fod mor ddall i beidio sylweddoli?'

Cododd Sian o'i sedd i fynd i ymddiheuro i Elin, roedd hi'n teimlo mor euog. Agorodd ddrws ystafell wely Elin gan ddweud:

Mae'n ddrw–' ond roedd rhywbeth o'i le, doedd Elin ddim yno. Cerddodd Sian i mewn i'w ystafell wely gan gau y drws ar ei hôl. Gwyddai Sian yn syth fod rhywbeth o'i le.

Eisteddodd Sian ar waelod gwely Elin. Yno roedd amlen gyda 'mam' wedi ei ysgrifennu mewn ysgrifen daclus arno. Rhwygodd yr amlen a dechreuodd ddarllen. Yn llygaid Sian roedd y boen i'w weld y tro hwn. Darllenodd y llythyr yn araf.

*Annwyl Mam,*

*Rydw i'n gwybod dy fod wedi bod drwy uffern ond doeddwn i erioed wedi bwriadu dy frifo di. Does dim pwynt i ti wadu nad fy mai i yw pob dim, gwelais dy deimladau yn fyw dy lygaid. Ond mae'n rhaid i ti sylweddoli na wnes i ddewis cael treiswr o dad. Mae'n anodd i mi ddygymod gyda'r ffaith bod ei waed o yn fy ngwythiennau. Rwy'n gwybod ei fod o'n dad drwy waed, ond fydd o byth yn dad iawn i mi. Felly rwyf wedi penderfynu gwneud dy fywyd yn haws i ti. Rwyf eisiau i ti wybod fy mod yn dy garu mwy na dim arall.*

*Sori,*

*Elin xxxx*

Crynodd dwylo Sian wrth iddi afael yn y llythyr. Edrychodd i fyny ar y cloc yn ystafell wely Elin.

Tic-toc, tic-toc...

Roedd amser yn mynd yn rhy gyflym y tro hwn.

'Plis Duw, dim heno o bob noson,' gweddiodd Sian wrthi'i hun.

Tic-toc, tic-toc . . .

Roedd amser yn mynd. Roedd yn rhaid i Sian fynd i edrych am Elin heno. Roedd yn rhaid iddi ddod o hyd iddi heno... mewn pryd.

Tic-toc, tic-toc, tic-toc...

SARA IFAN

## Enillydd Cystadleuaeth Tlws yr Ifanc

**'...a throais yr allwedd yn y clo'**

Ar y ffordd i dŷ nain yr oeddwn i pan ddigwyddodd o. Fy unig ffrind bryd hynny oedd y gath. Ar ôl i Taid farw roeddwn i byth a hefyd efo 'mhen yn fy mhlu, teimlais fel estron, fel morgrugyn pitw yng nghanol haid o eliffantod enfawr. Mi es yn flin efo pawb a phob dim. Aeth fy rhieni â fi at ryw seiciatrydd a oedd i fod i helpu ond gwaethygodd pethau.

Teimlais yn unig, doedd neb yn deall... heblaw am y gath. Tabi oedd hi, fel teigr, a'r gallu i guddio mewn llefydd cyfyng.

# O'r goeden i Galifornia

## Lawnsio albym arall gan Brigyn

Prin flwyddyn sydd wedi pasio ers i'r Ynyr ac Eurig ddechrau eu prosiect, Brigyn, ac ar ddiwedd Hydref ymddangos-odd eu hail CD yn y siopau.

I'r rhai ohonoch sydd wedi bod yn dilyn digwyddiadau lawnsio'r albym ar raglenni fel *Uned 5* a *Wedi 7*, fe wyddoch y bu Brigyn yn canu tu mewn i goeden hynafol! a bu'r ddau yn cyfuno gigs a gwyliau yn San Francisco ac ardaloedd eraill Califfornia fel rhan o ddathlu yr albym newydd.

Catrin Dafydd o gylchgrawn *Barn* fu'n gwrando ar yr albym newydd, sef Brigyn 2.

* * *

O gychwyn y gân gynta ar yr albym newydd mae 'na deimlad o greu disgwyliad.

Alaw leddf ryfedd gan weu offeryne ar ben 'i gilydd un ar ôl un. Teimlad glân heb unrhyw rwysg sydd gan y caneuon newydd i gyd. Caneuon offerynnol a chaneuon wedi eu cynhyrchu a'u gosod yn gynnil. Does dim syndod eu bod nhw'n boblogaidd. Tybed sut y bydd y cefnogwyr ffyddlon yn teimlo am y sŵn sydd ychydig yn newydd? Wel, dechre da, a mae'r clawr yn ffab.

Mae 'Diwrnod Farchnad' yn rhyw fath o anthem y gall pobl sy'n gweithio mewn marchnadoedd yng Nghymru ei mabwysiadu! Ac er gwaetha'r ffaith nad ydw i'n gweithio mewn marchnad, mae'r gân yn sownd yn fy mhen. Er nad ydw i bob tro am ei chlywed hi yn fy mhen.

Mae'r alawon cefndir, y cyfalawon a'r gwau i gyd yn ddestlus ac yn llwyddo i reoli dy fŵd di – yn dy dynnu di o'r byd gwallgo, a llais Ynyr yn dy suo i fyd y ddau frigyn o Lanrug. Weithiau, mae'n anodd gwybod a yw'r albym yn ceisio bod yn gasgliad o ganeuon ynteu'n ymgais i fod yn fwy fel royksopp a'u tebyg. Efallai mai'r hyn sy'n gweithio yw'r ffaith fod y bois yn defnyddio'r dull hwn o greu cerddoriaeth ond yn dal yn driw i'w halawon a'u caneuon.

Hits yr albym heb os yw 'Y Sgwâr', 'Diwrnod Marchnad' a 'Darn o'r un Brethyn' ond i fi, ma 'Hwyl fawr, ffarwel' gyda deuawd Ynyr a Fflur Dafydd yn ddarn lysh o gerddoriaeth gynnil a meddal fel cot cwningen. Mae 'na ryw adlais o ganeuon tawel Meic Stevens a Heather Jones yn 'Hwyl fawr, ffarwel'.

Ac mae 'Imago' hefyd yn cydio, er nad yw cyn gryfed ar gychwyn y gân ac er iddo hefyd orffen fel cân sioe gerdd.

Beth sy'n ddiddorol am ddatblygiad Brigyn yw ei fod e'n ddatblygiad hylifol. Dydyn nhw'n amlwg ddim yn hoffi sticio at un math o gerddoriaeth yn rhy hir. Mae esblygu a datblygu syniadau yn rhan greiddiol o'u bodolaeth nhw ac mae hynny'n hwyl i wrando arno.

Ar ben hyn, mae rhai darnau cerddoriaeth sydd wedi eu creu (er enghraifft ar gychwyn 'Bysedd drwy dy wallt') yn ddarn o siocled i'r glust. Wrth gwrs, mae perygl cwympo i drap a chael dy reoli gan opsiynau cerddoriaeth technolegol sy'n cael ei greu ar gyfrifiadur. Mae Brigyn wedi llwyddo i'w ddefnyddio'n dda ond mae'n gyffrous meddwl pa arbrofi arall allan nhw wneud mewn albyms yn y dyfodol.

Mae'n annhebygol y byddai unrhyw frigyn arall yn gallu creu sŵn mor soniarus. Ma' nhw fel arfer yn frown, yn gam ac yn go dawel ond mae'r Brigyn arbennig hwn wedi creu albym arbrofol ond gofalus. Nawr, faint o frigau all ddweud eu bod nhw wedi gwneud hynny?

CATRIN DAFYDD


## Rhai o uchafbwyntiau y mis dwytha mewn lluniau.



*Brigyn yn canu yn y goeden.*



*Cyfarfod Shelley a Mia – o Lanrug, sydd erbyn hyn yn byw yn Califfornia.*




*Canu yn San Francisco.*



***Golden Gate Bridge.***



# HEN LUNIAU

Bechgyn Ysgol Brynrefail a dynnwyd ar gyfer *Y Cymro* yn 1939. Oes rhywun fedr eu henwi, neu enwi y mwyafrif ohonynt? Anfonwyd y llun gan Griff Roberts, Llanrug.



*Dosbarth Coginio – Y rhes ôl, o'r chwith i'r dde: Gracie A. Hughes, Meiriona Price, Jean Roberts, Miss Hughes, Laura Evans, Dwynwen Evans a Mair Iona Williams. Y rhes flaen: Glenys Williams, Shirley Jones, Heulwen Morris, Laura Jones, Patricia Twyrould, Myfanwy Hughes a Gwladys Humphreys.*



*Y Tîm hoci – Y rhes ôl, o'r chwith i'r dde: G. Marian Thomas, Enid R. Edwards, Miss Barrett, Irene Price, Iris Roberts ac Annie M. Griffith. Y rhes flaen: Mena Jones, Peggy Land, Buddyg Jones, Nellie Wyn Jones ac Eileen Hughes.*


NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA



national slate museum
amgueddfa lechi cymru

oddiwrth pawb yn
Amgueddfa Lechi Cymru
Llanberis

*Diolch am eich Cefnogaeth drwy'r flwyddyn !*

national museum wales
amgueddfa cymru

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government



DMM

Nadolig Llawen

a

Blwyddyn Newydd Dda

oddi wrth bawb yn

DMM

www.dmmwales.com

Roedd ganddi flew brown golau a llygaid mawr, diniwed a oedd yn debyg i fy rhai i. Doedd ganddi ddim enw ond 'y gath', felly dechreuais ei galw hi'n Tabi. Roedd hi'n werth y byd i mi. Pan oedd pobl o'r ysgol yn fy mwlio, Tabi oedd yr un a wnâi i mi wenu ac anghofio am y peth. Ond buaswn wedi gwneud unrhyw beth i fod yn un o'r genod clyfar, del, gyda degau o ffrindiau. Ni allwn helpu ochneidio a theimlo fy mod yn gwastraffu fy mywyd.

Cerddais i tŷ nain i fod yn gwmpeini iddi. I fyny'r ffordd, troi i'r chwith a wedyn i'r dde, at y gornel, croesi'r ffordd. Sŵn sgrech brêcs yn fy amgylchynu. Roedd fy nghalon yn fy ngwddw. Troais rownd. Lori enfawr yn rasio ataf yn darw gwyllt. Ni allwn wneud fy meddwl i fyny, ymlaen neu'n ôl. Rhy hwyr! Ac wedyn dim byd... tywyllwch... du fel bol buwch.

Gwelais wyn. Waw! Roeddwn i yn y nefoedd, roedd bywyd yn mynd i fod yn berffaith o'r diwedd, na, o'n i dal yn fyw – mewn rhyw ystafell hir a goleuadau llachar, gwyn. Daeth dyn a dynes ataf a syllu. Dechreuodd y ddynes grio a gofynnodd y dyn,

*'Sut wyt ti, Arwen?'*

*'Be? Dim Arwen wyt ti, dwi erioed wedi dy weld ti na hi yn fy mywyd.'*

*'Paid â bod yn wirion wan.'*

*'Chi sy'n bod yn wirion.'*

*'Naci, Arwen 'di dy enw di, ni yw dy rieni di, rwyt ti wedi colli dy gof mewn damwain car.'*

Dyna pam oedd gennyf gymaint o gur yn fy mhen. Roedd fy ngorffennol wedi diflannu'n llwyr, fel hances mewn corwynt cynddeiriog.

Bywyd newydd. Roeddwn yn teimlo fel babi newydd gael ei eni, a dim syniad beth oedd y cewri dieithr a oedd yn fy amgylchynnu. Roedd yn rhaid i mi ddechrau eto, tudalen newydd, wag. Yr unig beth yr oeddwn yn ei wybod oedd mai Arwen oedd fy enw a bod y bobl a oedd yn dod at fy ngwely yn benderfynol fy mod yn mynd i fyw a gwella. Yn amlwg roeddent yn fy ngharu'n fawr.

Gwnaeth hyn i mi deimlo'n saff a hyderus.

Es i i'r coleg i astudio celf ar ôl ffeindio fy mod yn medru gwneud lluniau ardderchog. Gwnes ffrindiau o'r enw Lleuwen a Bethan – ffrindiau go iawn, gonest a ffyddlon. Aethom i bob man efo'n gilydd, i siopa, gigs, y sinema, a chawsom hwyl dros ben yn giglo ar bob peth dan haul, ond hefyd yn bod yn seriws am ein gwaith. Roeddwn i'n hyderus ac yn berson lliwgar, yn gwenu fel giât ar bawb a phob dim.

Ar ddydd Sadwrn cymylog arferol a'r gwynt yn achosi i'r coed blygu drosodd es i i siopa efo Lleuwen a Bethan. Erbyn i mi gyrraedd adref roeddwn wedi blino'n dwll ac wedi penderfynu cysgu ychydig cyn mynd allan eto i fynd i gig 'Yr Anifeiliaid Gwych Blewog'. [Super Furry Animals]. Roedd hi'n addo bod yn noson wych a blewog, ac anifeiliaid gwyllt y dorf yn cweryla am le yn y blaen! Cerddais mewn breuddwyd i fyny'r grisiau ac i fy ystafell, pan welais rywbeth wnaeth i mi ddeffro ar unwaith. Cath, yn cysgu ar fy ngwely. Roedd rhywbeth yn annaturiol o gyfarwydd ynddi. Roeddwn yn siŵr fy mod wedi ei gweld o'r blaen ond ni wyddwn cweit pryd. Yn sydyn daeth o i gyd yn ôl i mi. Fy nghyn-fywyd anhapus. Y gath oedd yr allwedd i ddrws fy nghof.


Sut oeddwn i'n mynd i fynd allan i'r gig rŵan ar ôl sylweddoli mod i'n berson swil ac amhoblogaidd a blin? Ond ers y ddamwain roeddwn i i fod yn berson hollol gyferbyniol gyda ffrindiau da! Syllais ar y gath, gwenais, a rhoddais o bach iddi. Mi oedd fy mywyd yn hapus a fy nyfodol yn mynd i fod yn hapusach fyth.

Erbyn hyn rwyf wedi agor siop ddillad efo Lleuwen a Bethan ac rydym yn gwneud y dillad ein hunain. Diolch byth fy mod i'n ddigon hyderus i ddewis rhwng yr hogan drist a'r hogan hapus ar y diwrnod yna pan welais y gath, a throais yr allwedd yn y clo.

EFA DYFAN


Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i bawb oddi wrth

**H.E. HUGHES**
**A'I FEIBION**
Bwthyn Gadlys
LLANBERIS
Ffôn: 870444



★ Gwerthwr Glo
★ Olew Gwres Canolog
i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda**



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl BROFFESIYNOL
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i CHWI
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch CAR. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava

AA · MOT · RAC Selected

GEMINI SERVICE CENTRE
Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad
bydd ein Gwasanaeth ni yn arbed £ £ £ ichwi ac yn ymestyn oes eich car

AVW
YSTAD CIBYN
CAERNARFON (01286) 673559
BOSCH

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i chi oll oddi wrth bawb yng


**NGORSAF BETROL**
**BERAN**

**DEINIOLEN. Ffôn: Llanberis 871521**
Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod
Petrol ● Disel ● Nwy Calor ● Glo ● Cylchgronnau
Papurau Newydd ● Cardiau Penblwydd
Wyau ● Nwyddau Groser ● Melysion
*Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn*

**TICEDI LOTERI AR WERTH**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i'n holl gwsmeriaid ac i bawb ym mro
*Eco'r Wyddfa* oddi wrth bawb ym
musnes llefrith

**EIRWYN**
**WILLIAMS**
**LLWYNCOED**
**CWM-Y-GLO**
Ffôn: (01286) 870563
Diolch am eich cefnogaeth
trwy'r flwyddyn



**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth**

Silver STAR
**GWYLIAU SEREN ARIAN**

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

**Am fwy o fanylion am ein teithiau, ffoniwch ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333**

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH



**Wavell Roberts**

**CIGYDD**

**LONDON HOUSE**

**LLANRUG**

**Ffôn: Caernarfon**

**673574**

PEN CIGYDD Y FRO

MYNNWCH Y GORAU A DEWCH ATOM NI

Dysgwch yrru'r car gydag

**Y.Y.O.**

**Ysgol Yrru Ofalus**

★ Gwasanaeth 7 diwrnod
★ O ddrws i ddrws
★ Control Deuol

**D** **L**


**PRITCHARD**

**43 Glanffynnon, Llanrug**

**Ffôn: C'fon 675112**

Cymeradwy gan yr Adran Drafnidiaeth

Nadolig Llawen a Blyddyn Newydd Dda i bawb



GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:-
Gatiau, Ffensus ac ati am brisiau cystadleuol

**Uned 1, Fferm Bryn Afon**

**LLANRUG**

**ffôn: (01286) 650349**

**neu 674183**

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth **Elaine, a staff**

SIOP DRIN GWALLT

***Elaine's***

**LLANRUG, Ffôn: 672023**

| ORIAU AGOR | |
|---|---|
| Mawrth | 9.00 – 7.00 |
| Dynion yn unig | 3.30 – 7.30 |
| MERCHER | 9.00 – 1.00 |
| IAU | 9.00 – 8.00 |
| GWENER | 9.00 – 8.00 |
| SADWRN | 7.30 – 5.00 |

- **Dydd Mawrth a Dydd Mercher i bensiynwyr**
- **Coluro ar gyfer achlysuron arbennig**
- **Gwasanaeth arbennig ar gyfer priodasau**

**Cefnogwch ein Hysbysebwyr**



Cyfarchion Nadolig


**LLANRUG**

**GWYN JONES**

**FFENESTRI ERYRI**

**GARTH ISAF, LLANRUG**

**(01286) 650764**
**neu**
**07050 357735**



- FFENESTRI
- DRYSAU
- DRYSAU PATIO
- PORCHES
- BYRDDAU FFASIA
- CLADIO
- CONSERFATERIS

BLYNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda*

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth*

***FFENESTRI CELTIC*** **WINDOWS**

Sefydlwyd 1980

**FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS**

**CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL**

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch — 'dio'n costio dim i gael pris

**(01286) 678618 (dydd)**
**(01248) 670081 (nos)**

NHBC

**HEN YSGOL GLANMOELYN**
**LLANRUG LL55 2RG**

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb*

**ARVONIA**

- Gwyliau cerbyd Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Tripiau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
- Adran teithiau grŵp – yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatr a digwyddiadau.



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 Ffacs: 01286-671126 E-bost: info@arvonia.co.uk
Gwefan: www.arvonia.co.uk

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth**

J.M. JONES A'I FEIBION

GWAITH CERRIG BEDDAU

**Y SGWÂR LLANRUG**

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol
Cerrig o bob math ar gael

**Ffôn: (01286)**
**672898 (dydd)**
**676285 (nos)**

## LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

NADOLIG LLAWEN. Mae Iolo ac Olwen Llywelyn, Pantafon Bach, yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w cyfeillion i gyd, gan na fyddant yn gallu anfon cardiau unigol allan eleni.

BABI NEWYDD.
Llongyfarchiadau mawr i Iolo Eilian (Bryn Moelyn) ag Aislinn, ar enedigaeth merch fach, Aoibhinn Seren, chwaer i Niamh, yn Dungannon, gogledd Iwerddon.

GWASANAETH NADOLIG.
Cynhelir Gwasanaeth Teuluol fore dydd Nadolig yng Nghapel y Rhos am 9 o'r gloch. Croeso i'r plant ddod i ddangos eu anrhegion. Ymunwch â ni i ddathlu geni Iesu Grist.

PROFEDIGAETH. Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant i Steve, Sian a Jake Burston, Bryniau Fawnog, yn eu profedigaeth lem o golli mam, mam yng nghyfraith a nain annwyl a ffrind agos i deulu Minffordd.

SEFYDLIAD COFFA.
Enillwyr y Clwb Cant am fis Rhagfyr oedd: £20: Mrs E. Davies, Llys Alaw; £7: R. Thomas, 54 Nant y Glyn; £5: Mrs M. Parry, Wenllys.

Dymunwn Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i bawb a diolch am bob cefnogaeth.

CAPEL Y RHOS. Yn y gwasanaeth fore Sul, 4 Rhagfyr, cyflwynwyd siec o £406.67 i Haf Thomas tuag at ei hymdrech i gasglu £50,000 tuag at Ambiwlans Awyr Cymru. Syniad plant hynaf Ysgol Sul Capel y Rhos oedd cynnal Noson Goffi i godi arian at yr achos, a nos Iau, 24 Tachwedd, fe gynhaliwyd noson hwyliog a llwyddiannus iawn, wedi ei threfnu gan blant Blwyddyn 5, 6, 7 ac 8, gyda help eu hathrawon yn yr Ysgol Sul. Roedd y plant wrth eu bodd yn edrych ar ôl y stondinau teganau, llyfrau, cardiau Nadolig, bwyd a chacennau, ac yn gofalu bod pawb yn cael paned o de neu goffi a bisgedi. Meirwen Lloyd oedd yn bennaf gyfrifol am y trefniadau ac yr oedd pawb yn falch o gael cyfrannu tuag at ymdrech arbennig Haf.

Bore Sul, 18 Rhagfyr, bydd y plant yn cynnal eu Gwasanaeth Nadolig ac y mae croeso cynnes iawn i bawb i Gapel y Rhos am 10 o'r gloch.

LLONGYFARCHIADAU i Sion R. Williams, Y Gors, Pontrhythallt, ar gael ei ddewis unwaith eto i gynrychioli Cymru yn yr arddangosfa ieithyddol flynyddol, *Expolanguages*, ym Mharis, Ffrainc. Bydd yn rhoi gwers Gymraeg ar 18ed Ionawr 2006 drwy gyfrwng y Ffrangeg i ieithwyr eraill o bob cwr o'r byd ac yn hybu ymwybyddiaeth o Gymru a'i hiaith yn ystod tridiau'r arddangosfa. Pob hwyl iddo.

YR YSGOL GYMUNED

**Y Ffair Nadolig**. Roedd y stondinau yn brysur iawn ar noson y ffair a'r baned a'r mins peis gan ferched y gegin yn dderbyniol iawn ar noson mor oer. Ond yn wir chafodd Siôn Corn druan ddim eiliad i lowcio ei baned na'i fins pei achos roedd cymaint o blant bach mor awyddus i'w weld. Bu'r groto yn brysur iawn am deirawr solet, a'r hen Santa yn sgwrsio ac yn holi'r plant am eu rhestr anrhegion eto eleni. Diolch iddo am ddod heibio ac i bawb a drodd i mewn i'r ffair i'n cefnogi.

**Caredigrwydd y Plant.** Eto eleni fe gofiodd y plant am rai bach sydd yn llai ffodus na hwy. Roedd nifer fawr o focsys yn cael eu cario o neuadd yr ysgol i'r fan a oedd yn eu cludo ar eu taith i wledydd tlawd y byd.

**Prynhawn o Adloniant.** Wedi inni fwyta ein gwala o ginio Nadolig blasus Anti Bethan a merched y gegin, fe gawsom gyfle i symud a dawnsio i gerddoriaeth Meinir Gwilym. Daeth i'r ysgol i roi prynhawn o adloniant i'r plant, canu dawnsio ac ambell gystadleuaeth. Fe fwynhaodd pawb ei hun yn ei chwmni. Diolch iddi am ddod atom eto eleni.

**Llongyfarchiadau.** Dymunwn longyfarch Miss Jenkins a Steven Edwards ar eu dyweddïad.

**Cyngherddau Nadolig**.
Perfformiodd disgyblion yr Adran Babanod eu sioe Nadolig 'Y Streic Fawr' ddwy waith nos Fawrth ac wedyn fore dydd Gwener. Roedd y neuadd yn llawn i'r tri pherfformiad. Mae'r plant yn mwynhau cael cymryd rhan fel hyn a'r rhieni a'r teidiau a'r neiniau yn falch iawn ohonynt

Nos Iau, 9 Rhagfyr, roedd neuadd Ysgol Brynrefail yn llawn dop. Teuluoedd wedi dod i wrando ar ddisgyblion yr adran Iau yn cymryd rhan yn eu sioe 'Y Cerdyn Nadolig', a phawb yn canmol y plant am wneud eu gwaith mor rhagorol. Cafodd rheini plant bach y Dosbarth Meithrin fwynhad hefyd wrth wylio y rhai bach yn cymryd rhan mor naturiol yn eu sioe hwy 'Ffatri Santa' fore Llun olaf y tymor.

Rhaid diolch i Anti Carol eto eleni am ddod atom i roi colur ar wynebau'r cymeriadau.

Ein tro ni oedd cael eistedd a mwynhau y pantomeim 'Hela'r Twrch Trwyth' yn Theatr gwynedd fore Mawrth. I ddiweddu'r tymor a'r gweithgareddau cafodd pawb hwyl yn y disgo.

Llongyfarchiadau i Rhodri Williams ar dderbyn gwobr am fod yn ddisgybl mwyaf addawol y flwyddyn yng Ngherddorfa Ieuenctid William Mathias.

Cafodd Darren a Rhodri eu dewis i dîm rygbi cyntaf Eryri dan 11 oed. Maent eisoes wedi chwarae dwy gêm. Roedd y sgôr yn gyfartal yn erbyn tîm Casnewydd ac enillwyd y gêm yn erbyn tîm Dyffryn Conwy.

**Gala Nofio yr Urdd.** Dydd Sadwrn, 26 Tachwedd, ym mhwll nofio Bangor cynhaliwyd Gala Nofio Eryri. Bu cystadlu brwd drwy'r dydd a daeth nifer o ddisgyblion yr ysgol i'r brig. Daeth Tomos Saynor yn drydydd yn y dull Pili-Pala a Tomos Alun yn drydydd yn y dull Cefn, tra fod Rhun Williams hefyd wedi dod yn drydydd yn y dull Rhydd. Llwyddodd Sian Angharad Williams i ddod yn gyntaf yn y nofio Rhydd a daeth Mari Gibbard yn ail.

Cafwyd llwyddiant yn y rasys cyfnewid – y tîm bechgyn dan 10 yn dod yn ail yn y ras gyfnewid Rhydd a Chymysg, a'r merched dan 10 yn dod yn drydydd yn y ras gyfnewid Rhydd ac yn y ras gyfnewid Cymysg.

Llongyfarchiadau mawr i bob un ohonynt a dymunwn bob llwyddiant i Sian Angharad Williams yn Abertawe ddiwedd Ionawr pan fydd yn cynrychioli Eryri yn y Gala Nofio Cenedlaethol.

**Ymweld ac Oes Victoria.**
Cafodd disgyblion blwyddyn 3 a 4 gyfle i ddathlu'r Nadolig fel y gwnâi plant Oes Victoria a hynny yn Amgueddfa Lloyd George, Llanystumdwy ar 3 a 4 Rhagfyr.

Bu iddynt gael cyfle i wneud pwdin Dolig traddodiadol o Oes Victoria a hefyd gweithio ar ddarn o ledr, o dan arweiniad Mathew Ifans o Gwmpenanner. Roedd y plant wedi mwynhau'r profiad yn fawr ac roedd yn ddiweddglo ardderchog gan eu bod wedi astudio'r cyfnod yn ystod y tymor.




Plant Ysgol Sul Capel y Rhos yn cyflwyno siec am £406.67 i Haf Thomas at yr ymgyrch Apêl Ambiwlans Awyr. Codwyd yr arian yn y Ffair Nadolig.

## CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon.
Ffôn: (01286) 872275

LLONGYFARCHIADAU i Avril ac Eifion Jones, Glan-y-Don ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf. Ganwyd merch fach, Alaw Wyn, i Carys a Dylan yn Llanberis.

DIOLCH. Dymunwn ddiolch i'r ffyddloniaid am ofalu am newyddion i'r *Eco* drwy'r flwyddyn. Cyfarchion y tymor a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y pentef.




Gwaith Plymio
a Gwres Canolog
**Dafydd Williams**
(Rhiwlas)
**01248 353815**
Symudol:
**07887 525118**
Trin a Thrwsio Boileri
Tanwydd olew
*Gwasanaeth lleol dibynadwy a da*
OFTEC
*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i bawb*

*Pryd i Bawb*

*Bwffe blasus o safon at bob achlysur*



*Priodas • Parti*

*Te Angladdau • Cinio Busnes*

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i Bawb*

**CERID MACKINNON**

*Plas Tirion, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4PY*

**(01286) 673190**

**LINDA MORRIS**

**GWASANAETH TRIN GWALLT YN EICH CARTREF**

**1 BRYN FEDWEN, FFORDD YR ORSAF LLANRUG. Ffôn: 678857**

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda*

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

**PAT AC EDGAR**

**SWYDDFA'R POST LLANRUG**



**Ffôn: (01286) 672422**

SWYDDFA'R POST

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda*

oddi wrth



**Y DYN CIG**

**BRYNAFON LLANRUG**

**675190 • 673188**

**Gwasanaeth lleol ar gyfer**

**Partïon•Priodasau**

**Pen-blwydd • Bedydd • Dawns • Gwyliau**

**RHOSTIO MOCHYN ar gyfer pob achlysur**

Cig o ffermydd lleol, Partïon rhwng 40 a 400!

**DEWCS, MAE O'N FLASUS!**

Cysylltwch â: **John Hughes Jones** ar un o'r rhifau uchod

**Cefnogwch ein Hysbysebwyr**



Cyfarchion Nadolig

**LLANRUG**

**GAREJ HAFOD**

PEUGEOT

**LLANRUG Ffôn: 673372**

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth John Trevor a'i deulu, a'r holl staff*






***Deinamig; soffistigedig; hardd; diogel; cystadleuol***

– dyma rai'n unig o rinweddau model y

**PEUGEOT 407** **Hwn fydd gyrru gorau'ch bywyd**

***Galwch i brofi drosoch eich hun!***

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth bawb yng

**NGHARTREF**

Foelas

**Ffordd yr Orsaf**
**LLANRUG**
**Ffôn: C'fon 674652**

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth*

**CERIS JONES**

Teglan, Stâd Talybont
**LLANRUG**
**677362**
neu symudol
**07979 620996**

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda*
*i'n cwsmeriaid i gyd oddi wrth*
DYLAN A MIKE
**SIOP CHIPS TEGFAN**
Y Sgwâr
**LLANRUG 678282**

CYFARCHION Y TYMOR ODDI WRTH
**DENNIS ROBERTS**
**(Glyn Roberts a'i Fab)**
**DYNION GLO LLANRUG**
**Ffôn: 675043**
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth
**BRYN AFON ENGINEERING LTD**
**PEIRIANWYR MECANYDDOL**
Arbenigwyr mewn pob math o waith metel
**GWAITH BRYN AFON**
**LLANRUG, Ffôn: 675523**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
Dave a staff y
**GLYNTWROG**
**LLANRUG**
**Bwyd ardderchog am brisiau rhesymol**
Bydd croeso cynnes yma dros yr ŵyl

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth**
**WENDY, GERAINT A STAFF**
**TAFARN PENBONT**
**LLANRUG**
**Lle braf a chwmni difyr dros wyliau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd**

***Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda***
**i ddarllenwyr Yr Eco oddi wrth Bawb ym Mharc Cartrefi Gwyliau**

HOLIDAY HOME PARK
**Bryntег**
**LLANRUG**

**– lle gwireddwyd breuddwyd**

Mae ein llwyddiant wedi parhau eleni eto gydag ennill
**Gwobr Aur Cadwraeth David Bellamy**



GRŴP
TALACRE BEACH

Dymunir diolch i drigolion ardal Eco'r Wyddfa am eu cefnogaeth yn ystod datblygiad y parc. Buddsoddodd y perchnogion, fwy na £3.5 miliwn ym Mrynteg. Yn y broses, crewyd rhagor na 40 o swyddi. Hefyd cefnogwyd a noddwyd nifer o achosion da lleol.

## Cefnogwch ein Hysbysebwyr

**Simneau glân am bris rhesymol gan**
**G. LLOYD**
**4 PLAS TIRION TERRACE**
**LLANRUG**
Cyfarchion y tymor i chwi oll
*Defnyddir peiriant sugno i lanhau*
*Ffôn: Caernarfon 674781*

DYMUNA
**GWYNFA A MARGARET**
**PRITCHARD**
**GWERTHWYR LLEFRITH**
**CEFN LLWYD**
**LLANRUG**
**Ffôn 872263**
**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I CHWI OLL**



# PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

SIOE NADOLIG YR YSGOL GYMUNED. Cafwyd gwledd o ganu ac actio bnawn Rhagfyr 7fed a nos Iau, Rhagfyr 8fed yn Eglwys Santes Helen. Roedd yr Eglwys yn orlawn a dymuna'r gynulleidfa ddiolch o galon i'r Pennaeth, yr Athrawon a'r plant am eu cyflwyniadau graenus. Mwynhawyd stori'r 'Goeden Hardd' gan Adran y Babanod a 'Pwy yw'r Serren?' gan yr Adran Iau – yn ein hatgoffa am y seren fwyaf a gafwyd erioed, sef Iesu. Diolch i chwi oll.

PÊL BONWS LOTERI. Enillydd mis Tachwedd oedd Mrs Blodwen Mowll, 19 Bryn Tirion. Diolch i bawb am y gefnogaeth drwy'r flwyddyn. Bwriedir parhau i werthu'r loteri yn 2006 gan ei fod yn ffordd hwylus o godi arian i Gronfa'r Penisynwyr.

CINIO NADOLIG. Cafwyd diwrnod i'w gofio dydd Sadwrn, 3 Rhagfyr. Pawb wedi mwynhau'r daith drwy Fetws-y-coed ac ymlaen i Borthmadog, ble cafwyd cinio Nadolig blasus a chyfle i wneud ychydig o siopa. Diolchir i'r rhai fu'n brysur yn trefnu'r achlysur yma.

PWLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Rhagfyr a'r enillwyr lwcus oedd: Dylan Jones, Meillionydd; Mrs A. Jones, Ty'n Gerddi a Mrs Eiriona Williams, Glyn Euron.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i'r aelodau am eu cefnogaeth eto eleni, gan ofyn yn garedig am eich haelioni eto yn 2006. Buasem yn hynod falch o gael mwy i ymaelodi unai 50c y mis drwy un o aelodau'r Pwyllgor neu £6 y flwyddyn, neu drwy Archeb Bost.

Diolchir i Phyllis Ellis am ofalu am werthu nwyddau Nadolig Webb Ivory ac i chwithau fu'n barod i archebu.

Cynhelir **Noson Wasael**, nos Iau, **15 Rhagfyr am 6.30** yn y Neuadd Gymuned. Bydd darlleniadau, eitemau gan y plant a chyd-ganu'r hen garolau a chewch fwynhau pwnsh a mins pei.

Y weithgaredd nesaf fydd Raffl **Calendr 2006** pryd y ceir cyfle i brynu dyddiau o'r flwyddyn am £1 yr un – gan obeithio y gwerthir y 365! Bydd gwobr hael o £50 i'r dydd lwcus.

Dymunir diolch i bawb a gefnogodd yr holl weithgareddau gydol 2005, gan sicrhau arian ar gyfer defnyddiau hanfodol i'r Neuadd a'r Ystafell Gymuned. Diolch o galon i chwi oll.

GWELLA. Gobeithio fod pawb yn gwella erbyn y Nadolig. Anfonir ein cofion anwylaf at Jean, Tai Croesion, wedi ei thriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Brysia wella, Jean.

YSGOL SUL BOSRA. Pnawn Sul, 18 Rhagfyr, am 2.00 o'r gloch cynhelir 'Sul y Teulu' gyda Mr Merfyn Jones, Caernarfon. Bydd y plant yn cymryd y rhannau dechreuol ac yna bedyddir Guto Harri, mab bychan Rhian a Stephen. Bydd Siôn Corn yn galw heibio yn ogystal. Croeso cynnes i bawb.

APÊL BOSRA. Nos Wener, 25 Tachwedd, cynhaliwyd Disgo Nadolig yn y Neuadd Gymuned. Tynnwyd y Raffl Fawr a gwnaed elw sylweddol o £470 tuag at y Gronfa. Diolchir i bawb am y gefnogaeth gref.

Dyma'r enillwyr:

Hamper Nadolig: Mr Robin Griffith, Groeslon Iasf; Cig (Wavell Roberts): Mrs Beti Robers, 10 Bryn Tirion; Twrci a Thinsel (Rheilffordd yr Wyddfa): Anthony Jones, Twll Clawdd, Llanrug; 6 potel o win (Will a Jean Jones): Rachel Massey, Caernarfon; rucksask (Gelert): Will Jones, 24 Bryn Tirion; Tedi (Gelert): Jean Jones, 24 Bryn Tirion; £10 Petrol (Modurdy Cwm-y-glo): Iona Williams, Llanddulas; Potel Sieri: Dilys, 7 Llys y Gwynt; Basged o sebonau: Sioned Larsen; Tin Bisgedi: Jean Parry, Llanberis; Bocs Siocled: Sharon, Canteen Wylfa; Caradiau Pwyth Croes: Pat Jones, Cefn, Bethel; Bisgedi: Garej Petrol Cwm-y-glo; Shortbread: Beryl Williams, Dinas Dinlle; Shortbread: Bryn Jones, Llanrug; Siocedi Thorntons: Llinos Larsen.


EGLWYS SANTES HELEN. Bydd Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul ar 18 Rhagfyr am 3.30. Gwasanaeth **Cristingl** fydd hwn ac estynnir croeso i bawb.

Ar Noswyl y Nadolig cynhelir y Cymun Bendigaid am **9.00 yr hwyr**.

Bydd llyfrau ariannol yr Eglwys yn cau, yn ôl yr arfer, ar ddiwrnod olaf y flwyddyn galendr. Croesewir cyfraniadau drwy law'r Trysorydd, Mrs Margaret Christian, neu'r Wardeniaid, Mrs Mary Davies neu Huw Tegid.

NADOLIG 2005. Dymunir Nadolig Llawen i chwi oll a phob bendith yn y flwyddyn 2006.

**Cefnogwch ein Hysbysebwyr**



## Dim Ond Seren

'Doedd na'm golau ar y goeden,
'Doedd na'm disgo yn y dref,
'Doedd na'm trimins drud yn hongian,
Noson geni Brenin Nef.

*Cytgan:*
Dim ond seren yn disgleirio
A'r angylion fel un côr
Yn cydganu â'r bugeiliaid,
Gan foliannu enw'r Iôr.

'Doedd na'm dawns ar sgwâr y pentre
Na the parti ar y stryd,
'Doedd na'm cyffro yn y ddinas,
Noson geni Brenin Byd.

'Doedd na'm carol ar y radio,
'Doedd na'm cynnwrf yn y ffair,
Dim ond byd yn llawn rhyfeddod,
Noson geni Baban Mair.

SELWYN GRIFFITH




Cyfarchion Nadolig PENISARWAUN

Cyfarchion Y Tymor

**Dylan Griffith**

**TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL**
**TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN**

Yn gwasanaethu'r holl ardal, yn cynnwys:
**PENISARWAUN, DEINIOLEN, LLANRUG A LLANBERIS**
Gwasanaeth teimladwy, urddasol a phersonol.
24 awr y dydd
Ffoniwch: **Dylan (Llys) ar 871833**
Symudol: **07778 127394**

**HEFYD** **CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA**



Cyrhaeddwch mewn steil – mewn cerbyd *Rolls Royce* ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac achlysuron arbennig eraill

**R.M. (DIC) PARRY**
**PEINTIWR AC ADDURNWR**
*PRISIAU RHESYMOL*
**TAWELFA, PENISARWAUN**
**Ffôn: (01286) 870846**

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i ddarllenwyr yr Eco*

**Nadolig Llawen a diolch am eich cefnogaeth** oddi wrth **Alwyn a Sarah**

**Blodau Racca**
Penisarwaen Ffôn **870605**

- Rithoedd Celyn, Coed Nadolig a 'Crem Pots' a Rithoedd Drws
- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silc
- Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau Siarad/*Talking Pages* 118 247
- Hefyd, *Bouquets* Nadoligaidd



**RHODD O'R GALON YW BLODAU**

## LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

DYMUNA Glyn a Nerys, 18 Maes Padarn, a theulu y ddiweddar Elizabeth (Betty) Williams, ddiolch o galon i bawb am y cydymdeimlad a ddangoswyd iddynt trwy ymweliad, llythyr, cerdyn neu alwad ffôn yn ystod eu profedigaeth eleni. Diolch yn arbennig i Mr Derek Jones am ei wasanaeth diffuant ac i Mr Gwynfor Jones a'r Ymgymerwyr, E.W. Pritchard, Llanberis, am eu trefniadau trylwyr a theimladwy.

Ni fydd Glyn Williams yn anfon cardiau Nadolig eleni ond dymuna fendithion yr Ŵyl i bawb o'i deulu a ffrindiau.

CAPEL COCH A NANT PADARN. Estynnwn wahoddiad cynnes i bawb i ymuno â ni yn festri Capel Coch ar gyfer ein dathliadau Nadolig. Cynhelir Gwasanaeth Nadolig y plant am 2.00 o'r gloch ddydd Sul, Rhagfyr 18. Bydd gwasanaethau Nadolig hefyd am 10.00 a 5.30 o'r gloch y diwrnod hwnnw, a chymerir rhan gan ieuenctid yr eglwysi ynghyd â'r aelodau hŷn. Fore Nadolig, cynhelir oedfa gymundeb am 10.00 o'r gloch. Bydd y plant yn cael eu parti Nadolig am 6.00 o'r gloch nos Fawrth, Rhagfyr 20.

Dymunwn Nadolig Llawen ar ran y ddwy eglwys i holl drigolion y fro.

DIOLCH. Dymuna Robin ac Ann Parry a'r teulu, Rhiwerfa, Fron Goch, ddiolch i bawb ym Mro *Eco'r Wyddfa* am y cydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt yn y brofedigaeth o golli mam Robin, Mrs Betty Parry, Porthaethwy. Diolch o galon am y cardiau a'r galwadau a'r ymweliadau; ac am y rhoddion a dderbyniwyd, er cof am fam a nain arbennig, at waith ARC (Ymgyrch Ymchwil Crydcymalau – *Arthritis Research Campaign*).

CWRS NEWYDD. Dewch i siarad mwy o Eidaleg – cwrs yn cychwyn yn Llanberis ar 16 Ionawr ar gyfer rhai sydd eisioes yn siarad rhywfaint o Eidaleg ac wedi mynychu cwrs dechreuwyr o'r blaen. Fe'i cynhelir yng Ngwesty'r Fictoria bob nos Lun, rhwng 7 a 9. Am fwy o fanylion ffoniwch yr Adran Dysgu Gydol Oes yn Mhrifysgol Cymru Bangor ar (01248) 382475.

## CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

Mae'r Cyngor eto eleni yn estyn gwahoddiad i fudiadau gwirfoddol lleol wneud cais am gymorth ariannol o Gronfa Cymorthdaliadau Bychan y Cyngor. Cyfyngir y ceisiadau i fudiadau lleol neu fudiadau sy'n gweithredu'n lleol.

Dylid anfon cais a mantolen ariannol cyn yr 13eg o Ionawr, 2006.

**Anfonwch at :**

**Clerc Cyngor Cymuned Llanberis (EW), Ty'n Twll, Nantperis, Caernarfon. LL55 4UL**



## Band Llanberis 1880?

Derbyniodd Anne Cumberton, Ty'n Llan, lythyr gan gwsmer a fu yn y dafarn dros yr haf yn ddiweddar. Roedd y gŵr – Glyn Parry – yn yr ardal yn olrhain ei achau teuluol a rhoddodd gopi o lun o'i daid a'i hen daid iddi. Llun ydyw o fand Llanberis, oddeutu 1880. Ei daid yw'r drymiwr ifanc ar flaen y llun, ac mae ei hen daid yn dal clarinet ar y chwith, John Walters oedd enw'r ddau. Tybed a ŵyr rhai o ddarllenwyr yr *Eco* pwy yw gweddill aelodau'r band? Cysylltwch â ni os oes gennych wybodaeth.

DODREFN PERKINS

SÊL Y GAEAF

Gwasanaeth Mesur a Ffitio

yn dechrau am 10a.m.
Dydd Iau, Rhagfyr 29

2 Canolfan Pen-llyn, Caernarfon, Ffôn: (01286) 676040
Yn ogystal â dodrefn, cofiwch hefyd am ein dewis mawr o GARPEDI; LLENNI a LLORIAU PREN

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

# Cofnodi Mamaliaid Môr Cymru

'Mae gennym lamhidydd ar draeth Dyffryn,' meddai llais tawel ar ben arall y ffôn symudol. 'Elli di fynd yno erbyn un ar ddeg o'r gloch bore 'ma?' Rod Penrose oedd yn galw, ac mae, o'i gartref ger Aberteifi, wedi bod wrthi ers deuddeng mlynedd bellach yn cofnodi a chasglu môr-grwbanod a mamaliaid môr sydd wedi dod i'r lan ar hyd arfordir Cymru.

Llamhidydd yw'r mwyaf cyffredin o blith oddeutu pymtheg o famaliaid môr o deulu morfilod (llamhidyddion, dolffiniaid a morfilod) y mae Rod wedi eu cofnodi. Mae llamhidyddion yn llai na dolffiniaid ond, yn wahanol i'w cefndryd agos, does ganddyn nhw ddim 'trwyn'. Mae Rod wedi gweld cynnydd sylweddol ym marwolaethau llamhydydd-ion yn ddiweddar, a thybia ef mai ymosodiad gan ddolffiniaid sy'n rhannol gyfrifol am hyn.

**Dolffiniaid ym Mae Ceredigion**

Er bod dolffiniaid yn greaduriaid chwareus iawn, ychydig sy'n ymwybodol o'r ffaith eu bod nhw'n gallu bod yn greaduriaid ffyrnig.

'Y llynedd, fe wnaethom gofnodi dau ddeg chwech o lamhydyddion oedd wedi eu lladd gan ddolffiniaid, yn bennaf ar hyd y Bae,' meddai Rod. Mae Bae Ceredigion yn gartref i un o'r ychydig boblogaethau o ddolffiniaid trwyn potel a geir yn nyfroedd Prydain, ac fe ellir gweld heidiau ohonyn nhw'n bwydo ger y lan mewn nifer o leoedd, o Sir Benfro i Ben Llŷn.

Er bod dolffiniaid a llamhidyddion yn gyffredin ar hyd arfordir Cymru, mae morfilod yn llawer prinnach. O dro i dro, caiff morfilod eu cofnodi, fel y morfil asgellog llwyd enfawr (18m) a olchwyd i'r lan ger Casnewydd yn 2004. Mae'r prosiect yn gweithio'n agos â Chymdeithas Sŵolegol Llundain a Phrifysgol Lerpwl, a gaiff eu hariannu gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA). Mae Rod, sydd hefyd yn cofnodi môr-grwbanod a morloi fel rhan o'r prosiect, yn dibynnu ar y cyhoedd ac ar rwydwaith o wirfoddolwyr, ceidwaid, wardeniaid a harbwrfeistri trwy Gymru i'w hysbysu am anifeiliaid sydd wedi dod i'r lan.

**'Rhybudd cynnar...'**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, sydd wedi bod yn ariannu'r prosiect yma trwy gyfrwng y Cyngor Cefn Gwlad, wedi cyhoeddi rhestr o gynefinoedd a rhywogaethau sydd angen gwarchodaeth arbennig yng Nghymru. Fe gynnwys y rhestr yma rai morfilod, dolffiniaid bach a llamhidyddion. Meddai Rod:

'Mae'r prosiect yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o warchod y creaduriaid môr rhyfeddol yma. Mae'n rhoi rhybudd cynnar i ni am iechyd poblogaethau, yn ogystal ag am iechyd y moroedd o amgylch ein harfordiroedd.'

Gwelir bod rhannau o Fae Ceredigion wedi eu dynodi'n Ardal Cadwraeth Arbennig Morol, sef ardaloedd sydd wedi eu dynodi oherwydd fod ganddyn nhw rywogaethau a chynefinoedd sydd o bwysigrwydd Ewropeaidd. Ers y flwyddyn 2000, mae hi bellach yn drosedd poeni neu darfu ar greaduriaid morfilaidd o fewn dyfroedd Prydain. Mae'r cyhoedd hefyd yn cael eu cynghori i beidio â nofio gyda'r anifeiliaid gwyllt yma.

I gofnodi creaduriaid morfilaidd marw sydd wdi dod i'r lan, ffoniwch *Marine Environmental Monitoring* ar (012348) 875000. Dylech ffonio'r RSPCA ar 08705 555 999 i ddweud eich bod wedi gweld creaduriaid byw wedi dod i'r lan.

I gael llyfryn (ynghyd â phoster) rhad ac am ddim o'r enw *Dolffiniaid, llamhidyddion a morfilod yn nyfroedd Cymru*, sef llyfryn sy'n rhan o'r 'Gyfres Rhywogaethau', cysylltwch â'r Cyngor Cefn Gwlad ar 0845 1306 229. Gallwch hefyd edrych ar wefan y Cyngor ar www.ccw.gov.uk

*Cynghorwyr annibynnol y llywodraeth yw'r Cyngor Cefn Gwlad, ac mae'n gweithio i gael Cymru well lle mae pawb yn trysori'r amgylchedd naturiol ac yn ei warchod. Gellir cael mwy o wybodaeth ynghylch ein gwaith ar www.ccw.gov.uk.*


Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH TŶ
(i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi ); neu


YSWIRIO EICH BYWYD
( i arbed colled i'ch teulu)

CDH
Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)
Ffôn: (01248) 355055

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i bawb*

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i bawb yn Llanberis a'r cylch oddi wrth

E. W. Pritchard
62 Stryd Fawr
Llanberis
Ffôn: 870202
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth Aneuryn a'r staff


Ymestyniad Ffôn wedi Torri?
Angen rhai Newydd? os felly
FFONIWCH
(01286) 650247 neu (07780) 811617 (symudol)
Eifion Hughes (7 diwrnod)
*Gwasanaeth Da am Bris anhygoel*
*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda*

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb
★ Priodasau ★ Dathliadau
★ Achlysuron Arbennig
★ Cynadleddau ★ Pwyllgorau
★ Bwydlen Bar ★ Cinio Dydd Sul
ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS
QUALITY HOTEL
(Quality Hotel Snowdonia)
wrth droed yr Wyddfa
Ffôn: Llanberis 870253

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda*
Gosodwr Teils
Arbenigwr mewn waliau a lloriau
Gwaith bach neu fawr
Gwaith da bob amser
Ffoniwch Lloyd ar
01286 830 805


# Annette Bryn Parri

Ganed Annette yn Neiniolen, pentref bach yng Ngwynedd, ble mae'n dal i fyw. Wedi iddi astudio'r piano gyda Rhiannon Gabrielson o Benmaenmawr aeth ymlaen i astudio gyda Marjorie Clement yng Ngholeg Cerdd Brenhinol Manceinion lle graddiodd yn 1984. Wrth gyfeilio ym Manceinion, roedd Annette yn arbenigo mewn Lieder, oratorio a'r opera, ond roedd ei diddordeb mwyaf yng nghyfansoddwyr y cyfnod Rhamantaidd.

Yn bymtheng mlwydd oed, roedd Annette yn gyfeilydd swyddogol. Yn 1982 enillodd Wobr Grace Williams am gyfansoddi yn Eisteddfod yr Urdd ym Mhwllheli. Yn 1983, cafodd ei gweld am y tro cyntaf ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol Cymru, yn Llangefni ac enillodd y Rhuban Glas offerynnol yn Eisteddfod Genedlaethol y Rhyl yn 1985. Gwelwn Annette ar lwyfannau dros Gymru gyfan y dyddiau yma, ac yn enwedig ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod Ryngwladol Llangollen. Yn 1984 ymunodd â'r Adran Gerdd ym Mhrifysgol Cymru Bangor, ac ers 1984, mae Annette wedi bod yn diwtor piano i fyfyrwyr Cerddoriaeth sy'n dilyn cyrsiau B.A. a B.Cerdd ac mae'n cyfeilio i fyfyrwyr yn eu harholiadau perfformio.

Mae'n cyfeilio i nifer o brif artistiaid Cymru – y byd enwog Bryn Terfel ac Aled Jones, Eirian James, Gwyn Hughes Jones, Leah Marian Jones, Rebecca Evans a llawer mwy... Mae wedi cyfrannu i nifer o gynhyrchiadau teledu fel *Noson Lawen*, *Cân i Gymru*, *Meistroli*, a llawer mwy. Mae ei chyfansoddiadau yn cynnwys ei threfniant o ganeuon Andrew Lloyd Webber, caneuon Cymreig a melodïau amrywiol, cerddoriaeth i ffilm a cherddoriaeth ysgafn.

Mae wedi ymddangos mewn cyngherddau, fel perfformwraig ac fel cyfeilyddes, trwy Gymru a Lloegr, yn ogystal ag yn yr Almaen, Llydaw, yr Eidal, Nigeria, Awstralia ac Hong Kong – ac ar fwrdd y QE2. Mae wedi cyfeilio yn Neuadd Albert, Llundain, ar sawl achlysur a bu Sir Andrew Lloyd Webber, Sir George Solti, y Tywysog Charles a'r ddiweddar Dywysoges Diana ymhlith ei chynulleidfaoedd preifat.


**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth**

**Richard S. Humphreys**

FINE ART TRADE GUILD

**ORIEL CWM**

**Cwm-y-glo**

**Ffôn/Ffacs: (01286) 870882**

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau gwreiddiol gan Artistiaid Lleol


# Un Mondo A Parte SCD2368

## Casgliad o unawdau piano

*Un Mondo A Parte* – byd o wahaniaeth. Dyma deitl casgliad o atgofion Gustaw Herling-Grudzinski. Yr un yw teitl darn a gyfansoddwyd gan Lucovido Enaudi, darn sydd i'w glywed ar y recordiad hwn. Caiff Gustaw Herling-Grudzinski ei gydnabod fel un o'r awduron rhyddiaith pwysicaf a welodd Gwlad Pwyl yn yr ugeinfed ganrif, ac roedd hefyd yn feirniad llenyddol. Fe'i carcharwyd yn 1941 am wrthwynebu'r modd yr oedd y Rwsiaid wedi meddiannu ei famwlad a rhoddwyd ef yn un o garchardai 'llafur' y Sofietiaid. Yn ei waith mae Gustaw Herling-Grudzinski yn disgrifio'r 'byd o wahaniaeth' a oedd rhwng y Pwyliaid a'r Rwsiaid yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Drigain mlynedd yn ddiweddarach gwelir byd o wahaniaeth o hyd rhwng safbwyntiau gwleidyddol a chrefyddol pobl mewn gwahanol rannau o'r byd, gyda'r gwahaniaeth hwnnw'n aml yn gyfrifol am farwolaethau a cholli gwaed.

Mae cerddoriaeth yn gyfrwng sy'n gallu dod â phobl o gefndiroedd gwahanol at ei gilydd – cerddoriaeth yw'r iaith sy'n 'gyffredin' iddynt. Gyda hyn mewn cof y dewisiodd Annette raglen o gerddoriaeth ar gyfer y CD yma – rhaglen amrywiol o weithiau gan Bach, Prelude yn C leiaf; Verdi, La Vergine; Gershwin, Rhapsody in Blue; i faled Sbaenaidd, Romance De Amor; ac addasiad piano o drefniant telyn o waith John Thomas: Bugeilio'r Gwenith Gwyn – 14 o draciau i gyd a fydd yn sicr o apelio at gynulleidfa eang.

Am ragor o fanylion am Annette, cysylltwch â'i hasiant Haydn Jones:
haydn@cantabileartistsagency.co.uk
neu y wefan:
www.cantabileartistsagency.co.uk
neu ag Adran Farchnata Sain: (01286) 831111 neu yr e-bost: elin@sainwales.com.


**TIWTOR MATHEMATEG**

Myfyriwr o'r ardal sy'n astudio at radd mathemateg ym mhrifysgol Caergrawnt. Ychydig o brofiad dysgu. Addas ar gyfer y sawl sy'n paratoi at arholiadau TGAU, AS ac yn y blaen. Bodlon teithio pellter rhesymol.

*Ffoniwch:* Robin Crag ar **01286 870548** i drefnu amser cyfleus.



**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB ODDI WRTH**

**KMP LLANBERIS**

**DIOLCH I BAWB A'N CEFNOGODD YN YSTOD Y FLWYDDYN**

**Noson cyn y Nadolig**
**Noson ola'r flwyddyn**

**Y bysus olaf o Landudno i Llanberis: 15.15**
**Bangor i Lanberis: 16.05**
**Caernarfon i Lanberis: 16.35**

**Dydd Nadolig a Gŵyl San Steffan – Dim bysus**
**Dydd Mawrth 27/12 – Gwasanaeth dydd Sul**
**Dydd Calan, 1 Ionawr 2006 – Dim bysus**
**Dydd Llun, 2 Ionawr – Gwasanaeth dydd Sul**

**K.M.P. (LLANBERIS) LTD**

Y GLYN, LLANBERIS, GWYNEDD LL55 4HN

**01286 870880**

# CHWARAEON

## BRETHYN CARTREF

Gwnaed penderfyniad pwysig yn ddiweddar gan y 'Welsh F.A.'. Wedi trafod, penderfynwyd nad oeddynt o blaid cael tîm Prydeinig yng nghystadleuaeth pêl-droed y Gemau Olympaidd. Efallai bod rhai yn teimlo bod hyn yn amddifadu cyfle i ambell Gymro gymryd rhan ar y lefel uchaf. Mae'n gwestiwn gen i a fyddai unrhyw Gymro yn cyrraedd y garfan derfynol, a sarhad fuasai cynnwys aelodau er mwyn bod yn 'ddiplomataidd'. Cytunaf â'r penderfyniad. Efallai y buasai F.I.F.A. yn gweld cyfle o'r fath gread i ddileu y cymdeithasau unigol, yn enwedig Cymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae cryn anesmwythyd ymysg gwledydd yr Affrig a'r Dwyrain Canol yn barod, bod gormod o gynrchiolaeth gan wledydd Ewrop. Rhaid cofio mai rhesymeg F.I.F.A. dros gynnal y gystadleuaeth yw meithrin syniad 'byd eang' y gêm. Ehanga'n y byd yw'r gynrchiolaeth, mwya yw'r dylanwad Mae cael tîm cenedlaethol yn unrhyw gamp yn rhan o statws a chydnabyddiaeth o genedl. Am y rheswm yma credaf yn gryf mewn cael tîm cenedlaethol criced yn chwarae yng nghystadleuaeth yr ICC.

Erbyn hyn mae rhai yn galw am dîm o Gymru yn y gemau Olympaidd? Pam lai? Neu yng nghystadleuaeth yr Eurovision Song Contest? Rwy'n siŵr na fuasai'n *'Gallois, non point'*!

Gwlad fach yw Cymru ym myd y campau, hyd yn oed ym myd bach rygbi, gyda ond tua 10 gwlad o safon. Ond mae pob gwlad fach yn cael ei hoes aur yn ei thro. Rwyf newydd ail-ddarllen y llyfr sy'n croniclo hanes tîm Cymru yn Sweden, 1958 – *When Pele broke our Hearts*. Roedd ambell seren yn nhîm Cymru fel Charles, Allchurch a Kelsey, ond hefyd rhai chwaraewyr o glybiau'r adrannau is, neu ail dîm y brif adran ar y pryd.

Erbyn heddiw, a oes sêr yn nhîm Cymru? Giggs, efallai; Hartson yn gwywo'n gyflym; Bellamy â chyflymdra ond cwestiwn ynglŷn â hunan-ddisgyblaeth. Ond, mae gennym wreiddiau yn dechrau magu: tîm –15 yn rhannu'r Victory Shield gyda grym Lloegr, a'n timau –19 a –21 yn cael canlyniadau calonogol iawn. Bechgyn ieuanc fel Mark Jones (Wrecsam) ac Owain Tudur Jones (Abertawe) yn denu sylw. Mae gan Gaerdydd naws ifanc Gymreig i'w carfan ac eisioes mae Vaughan, Price a Koumas yn cael cyfle gan Toshack. Dyma'r dyfodol. Braf fuasai meddwl fod chwaraewyr o'r clybiau Cymreig yn ffurfio cnewyllyn ein carfan genedlaethol.

Rhaid cofio mai i gyfeiriad Ewrop y mae prif glybiau Lloegr yn edrych i ddenu chwaraewyr – hyd yn oed ymysg y rhai ieuanc. Pwy yw Cymru Chelsea, Arsenal, Lerpwl neu Utd. Erbyn hyn? Pwy yw'r Ffrancwyr, Sbaenwyr, Portiwgeaid…?

Dyma'r adeg i ddatblygu a chryfhau ein dulliau hyfforddi. Llwybr pendant o'r gynghrair dan 21 ranbarthol i brif dimau clybiau y gynghrair genedlaethol. Y timau rheini wedyn yn bwydo y tri phrif glwb Cymreig. Yn bendant, i ddatblygu'r hufen, dylid lleihau y gynghrair genedlaethol i 10 clwb, a rheini yn cael ei noddi gan yr F.A.

Gorau oll os buasai Caerdydd yn cyrraedd yr uwch adran, ac Abertawe a Wrecsam yn cael dyrchafiad. Yr wyf yn teimlo yn fwy hyderus nag oeddwn i ddwy flynedd yn ôl. Mae arwyddion positif dan arweiniad Toshack ar gyfer y tymor hir. Gwelwn hyn, rwy'n siŵr, wedi cyflafan Cyprus. Mae wedi agor drws i ambell 'hen' chwatraewr adael, a'r ifanc gamu i mewn. Amser a ddengys sut broffwyd ydw i.



*Dyma lun o Iolo Hughes a Gethin Jones, Bethel, fu'n llwyddiannus yng nghystadleuaeth nofio'r Urdd yn ddiweddar.*

## YMDDIHEURIAD




Yn anffodus ni chafodd y llun o'r tîm traws gwlad ei gynnwys y mis diwethaf. Rwyf wedi ei gynnwys y tro hwn. Os y gŵyr unrhyw un yr enwau coll, neu yn cofio canlyniad y rasus, gadewch i ni wybod.

## ANRHEGION NADOLIGAIDD

**I dimau Llanrug, Llanberis a Deiniolen:**
I gario 'mlaen i feithrin talentau lleol. Pwy a ŵyr, un diwrnod y daw'r seren nesaf.

**I dim Bethel:**
Cymorth o rywle i gael cae yn y pentref. Mae dycnwch y pwyllgor gweithgar yn haeddu hynny.

**I redwyr Eryri:**
Llongyfarchiadau ac edmygedd am adeiladu clwb llwyddiannus iawn o ddechrau 'cyntefig'. Gwir ystyr i'r campwr amatur.

**I Ferguson:**
O gofio traddodiad y clwb, amser i feddwl go-iawn am ei ddyfodol. Un tymor rhy hir?

**I Toshack:**
Gallu i frathu'i dafod a chario 'mlaen i feithrin yr ieuenctid.

**I wirfoddolwyr a phwyllgorau pob clwb campau yr ardal:**
DIOLCH

**I unigolion disglair y campau llai sy'n serenu:**
Llongyfarchiadau, a gyrrwch y straeon i mi.

**I'r Golygydd Chwaraeon:**
Wedi cyfnod hir yn y swydd, mwy o bobl yn barod i ddanfon straeon iddo fo.

**I Frankie Cefn Gwyn:**
GWRAIG

**I bawb:**
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda.

## DILYN HEN DRYWYDD



Rydym i gyd yn cofio camp anhygoel tîm –12 Ysgol Brynrefail yn ennill Cwpan Cymru rai tymhorau yn ôl. Tybed a yw hanes am ailadrodd ei hun? A'r *Eco* yn mynd i'w wely Nadoligaidd mae'r bechgyn o fewn un gêm i gipio Pencampwriaeth Eryri – sef hen siroedd Môn, Arfon, Meirion a Conwy.

Fel y tîm blaenorol, mae'r tîm cyfredol hefyd yn dîm ymosodol iawn, ac yn sgorio llond rhwyd o goliau.

Eu record yn y gystadleuaeth hyd yn hyn yw: curo David Hughes i ffwrdd 8–4, Caergybi gartref 5–1, ac Amlwch gartref 8–1. Sylwch fod yr ysgolion hyn tipyn mwy eu maint. Yn y gêm dyngedfennol byddant yn chwarae enillwyr y gêm rhwng Friars ac Eifionydd. Cawn adroddiad o'r llwyddiant, gobeithio, yn y rhifyn nesaf ac yna dilyn eu hynt.

Mewn cwpan arall lloriwyd Dyffryn Ogwen. Fel mae pethau wedi newid!!

Pob lwc i'r hogia. Os caiff Mr. Holland lwyddiant eto, fydd Man U. ar ei ôl?